

Mat. 56

Angus Patterson

51

FFORDD Y BRAWD ODRIG

FFORDD Y BRAWD ODRIG

O LAWYSGRIF LLANSTEPHAN 2

GOLYGWYD GAN

STEPHEN J. WILLIAMS

COLEG Y BRIFYSGOL, ABERTAWE



CAERDYDD

GWASG PRIFYSGOL CYMRU

1929



ARGRAFFWYD YNG NGHYMRU

CYNNWYS

Tud.

RHAGYMDRODD

| | | |
|------|--|--------|
| i. | Y Cyfieithydd | xi |
| ii. | Y Brawd Odrig | xiii |
| iii. | Y Testunau | xvii |
| iv. | Pwysigrwydd Odrig fel Teithiwr | xxi |
| v. | Y Cyfieithiad Cymraeg : | |
| | A. Orgraff | xxiv |
| | B. Treigliadau Cytseiniaid | xxv |
| | C. Y Modd Dibynnol | xxvi |
| | CH. Arddull | xxvii |
| | D. Y Testun | xxviii |

FFORD Y BRAWT ODRIC

| | | |
|----------|---|----|
| [I.] | Armenia Fwyaf] | 31 |
| [II.] | “Yr India Uchaf”] | 32 |
| [III.] | Caldea a'r “India”] | 33 |
| [IV.] | Hanes merthyru'r brodyr yn yr India] | 34 |
| [V.] | Y Gwyrthiau wedi'r merthyru] | 38 |
| [VI.] | Defodau trigolion Mobar a Lamwri] | 40 |
| [VII.] | Jaua, Panton a'u rhyfeddodau] | 41 |
| [VIII.] | Campa a'r pysgod rhyfedd] | 43 |
| [IX.] | Ynys Machimoran] | 44 |
| [X.] | Ynys Silan] | 44 |
| [XI.] | Ynys Bodin] | 45 |
| [XII.] | Yr India Uchaf—Mansi] | 46 |
| [XIII.] | Y Mynydd Mawr a Dinas Kanasia] | 47 |
| [XIV.] | Y Fynachlog Fawr a'r anifeiliaid a fuasai'n ddynion] | 48 |
| [XV.] | Amryfal ddinasoedd Cattai] | 49 |
| [XVI.] | Dinas Kambelech] | 50 |
| [XVII.] | Yr Ymherodr Kan de Cattai, a gwychder ei lys] | 51 |
| [XVIII.] | Gwleddoedd yr Arglwydd Kan] | 53 |
| [XIX.] | Tir Pretegoan a Brenhiniaeth Tubec] | 54 |
| [XX.] | Y gŵr cyfoethog, a brodyr crefyddus Melestorte] | 55 |
| [XXI.] | Dyffryn y Meirw] | 56 |

| | | |
|------------------------------------|--|-----|
| NODIADAU | | 59 |
| GEIRFA | | 83 |
| ENWAU LLEOEDD A GWLEDYDD | | 89 |
| ENWAU PERSONAU | | 91 |
| ATODIAD I | | 93 |
| ATODIAD II | | 95 |
| MAP | | 125 |

BYRFODDAU

- A. ac A. . . . *Kymdeitbas Amlyn ac Amic*, Ed. by J. Gwenogvryn Evans, Llanbedrog, 1909.
- AR. . . . Arundel MS. No. 13, British Museum, 14th cent.
- B.B. . . . *The Black Book of Carmarthen*, Ed. by J. Gwenogvryn Evans, Pwllheli, 1906.
- B.B.C.S. . . . *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, Oxford.
- B.CW. . . . *Gweledigaethau y Bardd Cwsc*, Ellis Wynne, dan olygiaeth J. Morris-Jones, Bangor, 1898.
- B.N. . . . Lat. MS. 2584, Bibliothèque nat., Paris, 14th cent.
- Boll. . . . Testun y Bollandistiaid o'r *Itinerarium*, yn *Acta Sanctorum*, o dan "XIV Januarii."
- COR. VOC. . . . *The Cornish Vocabulary* (12th c.) yn *The Ancient Cornish Drama* (Norris), Oxford, 1859.
- C.W.T. . . . *Cathay and the Way Thither*, by Henry Yule, Hakluyt Society, London, 1866. Revised by Henri Cordier, London, Vol. I, 1915; Vol. II, 1913.
- CH.O. . . . *Chwedlau Odo*, Ifor Williams, Wrecsam, 1926.
- D. . . . *Dictionarium Duplex*, John Davies, 1632.
- D.B. . . . *Delw y Byd*, H. Lewis a P. Diverres, Caerdydd, 1928.
- D.F. . . . Dafydd Fychan, y cyfieithydd.
- D. FFEST . . . *Darn o'r Ffestival*, Henry Lewis (Atodiad i'r Trans. Cym., 1923-4).
- D.G.G. . . . *Cynyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, Ifor Williams, a Thomas Roberts, Bangor, 1914.
- D. NAN. . . . *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, Ed. by Thomas Roberts, Revised by Ifor Williams, Cardiff, 1923.
- E.E.W. . . . *The English Element in Welsh*, T. H. Parry Williams, London, 1923.
- ENC. BR. . . . *The Encyclopædia Britannica*, 11th Edition.
- G. a. C. . . . *The History of Gruffydd ap Cynan*, Arthur Jones Manchester, 1910.
- G.I.D. . . . *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, Ifor Williams, Bangor, 1909.
- G.O. . . . *Cynyddau Goronwy Owen*, W. J. Gruffydd, Newport, 1907.
- G.T.A. . . . *Gwaith Tudur Aled*, T. Gwynn Jones, Caerdydd, 1926.
- H. . . . Testun Lladin yr *Itinerarium* yn *The Principal Navigations Voyages, Traffiques & Discoveries*, Richard Hakluyt, vol. iv. Glasgow, 1904.

Byrfoddau

- HIST. OF WALES . . . *A History of Wales from the earliest times to the Edwardian Conquest*, by John Edward Lloyd (Second Edition), London, 1912.
- I.G.E. . . . *Cynyddau Iolo Goch ac Eraill*, Henry Lewis, Thos. Roberts, ac Ifor Williams, Bangor, 1925.
- LL.A. . . . *Llyvyr Agkyr Llanddenwivrevi* (1346). *The Elucidarium and other Tracts in Welsh*, J. Morris-Jones and John Rhŷs, Oxford, 1894.
- LLAN. 2 . . . Llanstephan MS. 2 (= Shirburn C19) yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Hanner olaf y XV ganrif.
- LL. C. GR. I. . . *Llenyddiaeth Cymru, 1450-1600*, W. J. Gruffydd, Lerpwl, 1922.
- LL.LL. . . . *Cyfranc Lludd a Llevelys*, Ifor Williams, Bangor, 1910.
- LL. LL. C. . . . *Llwylyfr Llydaweg Canol*, Henry Lewis, Aberdâr, 1922.
- LHUYD . . . *Archæologia Britannica*, Edward Lhuyd, 1707.
- LOTH. VOCAB. . . *Vocabulaire Vieux-Breton*, J. Loth, Paris, 1884.
- MARCO POLO . . . *The Travels of Marco Polo*, Henry Yule, revised by Henri Cordier, London, 1921.
- M.V.M. . . . *Math vab Mathonny*, W. J. Gruffydd, Cardiff, 1928.
- N.E.D. . . . *A New English Dictionary*, Oxford, 1884-1928.
- ORGRAFF . . . *Orgraff yr Iaith Gymraeg*, 1928.
- PUGHE . . . *A Dictionary of the Welsh Language*, W. Owen Pughe, 2nd Edition, Denbigh, 1866.
- REP. W. MSS. . . Report on Welsh Manuscripts, 1898-1910.
- R.B.B. . . . *The Bruts from the Red Book of Hergest*, John Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans, Oxford, 1887.
- S.E. . . . *A Dictionary of the Welsh Language*, D. Silvan Evans. Carmarthen, 1888-1906.
- STRACHAN INTR. . . *An Introduction to Early Welsh*, John Strachan, Manchester, 1909.
- S.H. . . . Cyfieithiad Saesneg o H., gan Hakluyt
- S.Y. . . . Cyfieithiad Saesneg o B.N., yn C.W.T.ii, gan Henry Yule.
- TRANS. CYM. . . *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*.
- T.W. . . . Thomas Wiliems, awdur y Geiriadur Lladin—Cymraeg yn D.
- W.G. . . . *A Welsh Grammar*, J. Morris-Jones, Oxford, 1913.
- W.M. . . . *The White Book Mabinogion*, J. Gwenogvryn Evans, Pwllheli, 1907.
- W.P. . . . *The Welsh People*, John Rhŷs and David Brynmor Jones, 4th Edition, London 1906.
- Z.C.P. . . . *Zeitschrift für Celtische Philologie*.

RHAGAIR

AWGRYMODD yr Athro Henry Lewis imi, rai blynyddoedd yn ôl, *Ffordd y Brawd Odrig* yn destun traethawd am radd M.A., ac o dan ei gyfarwyddyd gwerthfawr ef bûm yn gweithio ar y testun hwnnw. Cyn mentro cyhoeddi'r traethawd cwtogais lawer arno, er mwyn ei wneuthur yn fwy hylaw fel llyfr ac er mwyn rhoi lle i gopi Lladin o'r testun gwreiddiol fel atodiad. Bu Bwrdd Gwasg y Brifysgol mor garedig ag ymgymryd â'r cyhoeddi.

Gobeithir y bydd y llyfr yn fuddiol i'r sawl a fynno ddechrau astudio Cymraeg Canol, yn gystal ag i'r darllenydd cyffredinol, ac ar gyfer y ddau ddosbarth hyn, ymdriniwyd ag iaith y testun a'r mater cyn helaethed ag y gellid heb beri chwyddo maint y llyfr.

Mi geisiais rywdro gymreigio'r enwau lleoedd estron y sonnir amdanynt yn y rhagymadrodd a'r nodiadau, e.e., rhoi *Silón* am Ceylon, a *Hang-Tsiaw* am Hang-Chau, etc., ond barnwyd na wnai ffurfiau mor ddieithr yr olwg ond tywyllu cyngor. Ni byddai'r rhain ond cynnig i gymreigio dulliau Lloegr o sgrifennu enwau estron, canys nid oedd gennyf yr wybodaeth o ieithoedd y Dwyrain y byddai'n rhaid wrthi i roi ffurf Gymreig i seiniau dwyreiniol yr enwau, hyd yn oed pe caniatâi'r egwyddor hynny yn y Gymraeg. Bernais, felly, mai diogelwch i mi, ac eglurder i'r darllenydd, fyddai rhoi'r ffurfiau Seisnig cyfarwydd arnynt.

Y mae fy niolch yn ddyledus i'r Athro J. Lloyd-Jones a'r Athro W. J. Gruffydd am eu beirniadaeth werthfawr ar y traethawd, ac i'r olaf am y cwbl a ddysgais ganddo pan fûm ddisgybl iddo. Dymunaf gydnabod hefyd, yn ddiolchgar iawn, y feirniadaeth graff a'r awgrymiadau buddiol a gefais gan yr Athro T. H. Parry-Williams, a ddarllenodd y gwaith dros Fwrdd y Wasg. Diolchaf hefyd i Mr. Alan Stuart, Coleg

Rhagair

y Brifysgol, Abertawe, am ei help caredig i baratoi'r map, ac i Mr. Jenkin James am ei hynawsedd ynglŷn â hwyluso'r cyhoeddi.

Ond y mae fy nyled yn drymaf ac yn bennaf i'r Athro Henry Lewis, am y mil a mwy o'r cymwynasau a'r cyfarwyddiadau hynny na ellir eu nodi, ac na wŷr neb amdanynt ond y sawl a fu'n dysgu gan athro profiadol ac ewyllysgar a hynaws. Ni bu ball ar ei garedigrwydd, na'i barodrwydd i gynghori a helpu, o'r dechrau cyntaf hyd at gywiro'r olaf o'r proflenni.

S.J.W.

RHAGYMDRODD

i. Y CYFIEITHYDD

HYD y gwyddys, nid oes copi arall o ddarn o ryddiaith a welir yn Llanstephan MS. 2 (colofnau 234–276), sef llawysgrif a berthyn i ail hanner y bymthegfed ganrif. Cyfieithiad yw'r darn o hanes teithiau'r Brawd Odrig o'r Eidal drwy Asia yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac fe ymddengys mai o'r Lladin y cyfieithwyd ef gan offeiriad o'r enw Dafydd Fychan, o Forgannwg.

Y mae'r llsg. mewn llaw bur eglur, at ei gilydd; eithr nid ^x yw'n hollol gyflawn. Fe dorrwyd darn o ymyl dwy golofn, ac ni roddwyd rhif uwchben y colofnau hyn yn y llsg.; ond nodir hwy isod 241 B, a 242 A. Hefyd y mae tua phedair colofn yn eisiau rhwng 247 a 248, a sylwodd Edward Lhuyd ar hynny, pan fu'r llsg. yn ei feddiant, oblegid ceir "Desiderantur . . . Folia" yn ei law ef (mi debygaf) uwchben col. 248. Ymddengys mai Lhuyd a roes rif i'r tudalennau, ac mai ef hefyd a ysgrifennodd y teitl, "Taith y Brawd Odrig i'r India" uwchben col. 234. Am na wyddai pa sawl dalen a gollesid ar ôl 247, nid oedd ganddo i'w wneuthur ond rhoi'r rhif 248 i'r tudalen nesaf a ddigwyddai. Wrth gopïo'r testun ceisiais lenwi'r bylchau yng nghol. 241 B a 242 A, drwy gymharu â thestunau Lladin, a cheisio barnu pa nifer o lythrennau a allai fod ym mhob llinell ar y darn coll.

Rhoir enw'r cyfieithydd ar ddiwedd y testun, fel "Syre Dauyd Bychein o Vorgannwc", ond rhaid mai gwall am "Bychan" yw "Bychein". Bid sicr, disgwyliem "Vychan", ond ceir "Alexander Mawr" hefyd ar dud. 34, ll. 12.

Ni welais ond pedwar cyfeiriad at enw Dafydd Fychan, sef:—i. Lhuyd tud. 255, col. 3, mewn rhestr o lsgrau. Cymraeg; "Sr. Davydh Vyxan *Clamorganensis, interpretatus est Odorici nescio cujus monachi itinerarium apud Indos circa annum 1460.* D.* fol. 234. Init. Lhymma y treithur o

Rhagymadrodd

fordh y Braud Odrig. Fin. Ag velly a tervyna siurne y Braud Odrig yn India yr hun a drossauðh Sr. Davydh Vyxan o Vorgannug, o arx a damyned Elys ab Thomas ab Ennyon y veystyr. Const. fol. 22" [* D. *Codex penes Authorem in membranâ scriptus, miscellanea continens; cui Tit. Didrevnyn.* 4 to. (Lhuyd tud. 254, col. 1)].

- ii. *Cambrian Biography* (William Owen [Pughe] 1803.) td. 81; "Davydd Vychan, Sir, a poet of Glamorgan, who flourished from about the year 1450 to 1490. He translated a work from the Latin, entitled *Taith y Brawd Odrig yn yr India*.
- iii. *Hanes Llenyddiaeth Gymreig*, (Gweirydd ap Rhys, 1883) td. 258; "1450-1490 Dafydd Fychan o Forgannwg" (mewn rhestr o feirdd).
- iv. *Cymry Enwog Cyfnod y Tuduriaid* (R. T. Williams, Y Bala, 1914); "*Dafydd Fychan*—Offeiriad a bardd o Forgannwg, ac yn ei flodau rhwng 1450 a 1490. Ei athro barddonol ydoedd Elis ab Tomos ab Einion, ac yn y flwyddyn 1460, ar gais hwn, cyfieithodd 'Taith y Brawd Odrig yn yr India', o'r Lladin i'r Gymraeg. Meddai'r hynafiaethydd trylen Ed. Lhwyd, gyfysgrif ohono, ac crys y llafur llenyddol hwn mewn llawysgrifau".

Y mae'n bur amlwg mai sylw Lhuyd yw sail yr hyn a ddywed y tri arall. Awgrymodd "y veystyr" mai athro barddonol oedd Rhys ap Thomas, ac am hynny, fod Dafydd Fychan yn fardd, er na ddywed Lhuyd hynny. Camddarllenodd yntau "Rys" yn "Elys" a chopiodd Mr. R. T. Williams y gwall; a thebyg mai ar antur y rhoes Pughe gyfnod blodau'r cyfieithydd o 1450 hyd 1490, am i Edward Lhuyd roi 1460 fel blwyddyn dybiedig y cyfieithu.

Gwelir mai yn ei orgraff ei hun y rhoes Lhuyd y dyfyniadau, a'u bod yn wallus. Ni ddywed chwaith beth oedd ei sail i "apud 1460", onid oed y llsg. Os oedd Dafydd Fychan yn fardd, nid oes dim o'i waith ar gael, hyd y gwyddys, nac

Rhagymadrodd

unrhyw sôn am fardd o'r enw "Rys ap Thomas vab Einyawn", a allai fod yn athro iddo.

Fe awgrymwyd i mi gan Mr. J. M. Davies, o Lanelli, mai'r un oedd y cyfieithydd â Dafydd Fychan ap Dafydd ap Hopcyn, o deulu bonheddig Ynystawe, yr hwn oedd yn byw yn ail hanner y bymthegfed ganrif. Cyfeirir at wahanol aelodau'r teulu yn y Penrice & Margam MSS., cyf. I, td. 134, 154, a 159; ac fe ganodd Lewys Glyn Cothi (*Gweithiau*, td. 107) gywydd i hanner brawd y Dafydd Fychan hwn, sef Siôn ap Dafydd, a Ieuan Deulwyn (G.I.D. td. 95, 115) farwnad iddo. Tynnodd Mr. Davies fy sylw hefyd at gyfeiriad "Y Nant" ym Mhen. 54 (Rep. W. MSS., vol. I, p. 419) at anlladrwydd rhyw "Syr tafydd fychan".

Er bod ychydig eiriau a geir yn y testun yn awgrymu mai rhywun o Gwm Tawe oedd y cyfieithydd, (e.e. *molwet* 43.27, *tarren* 56.17), eto ni welaf y gellir profi mai'r un oedd ef â Dafydd Fychan o Ynystawe. Ni welais yr un awgrym mai offeiriad oedd hwnnw; ond fe roddir y teitl a roddid i offeiriad yn y cyfnod hwnnw, i'r cyfieithydd (*Syre* Dafydd Bychan). Drachefn, beth a olygir wrth "y veystyr" 57.11? Os athro barddoniaeth a feddylir, yna gellir dweud nad yw'n debyg y byddai'r disgybl yn offeiriad. Ac os gŵr bonheddig a feddylir, wel, yr oedd Dafydd Fychan, o Ynystawe, ei hun yn uchelwr, ac nid tebyg y byddai ganddo "veystyr" i ufuddhau iddo.

Ni ellir dweud mwy, ynteu, na bod y cyfieithydd, Dafydd Fychan, yn offeiriad a gŵr dysgedig, yn byw ym Morgannwg rywbryd yn y bymthegfed ganrif efallai; a'i fod, efallai, yn fardd er nad oedd, bid sicr, yn brydydd wrth grefft.

ii. Y BRAWD ODRIG

Bu llawer iawn o ymchwil i hanes bywyd y teithiwr ei hunan, a chan mai'r ymdriniaeth ddiweddaraf a llawnaf a welais yw *Cathay and the Way Thither*, gan Syr Henry Yule (1820-1889), wedi ei olygu gan yr Athro Henri Cordier.

Rhagymadrodd

cymerwyd y ffeithiau ynglŷn â bywyd Odrig a'i deithiau, etc., gan mwyaf, o'r llyfr hwn.

Y mae'n hynod bod cyfeiriadau at Odrig a'i waith gan ei gyfoeswyr mor brin, oblegid ni cheir nemor un ar wahân i'r hyn a geir yn yr atodiadau i'r testunau Lladin o hanes y daith. Ceir bod Almaenwr o'r enw John de Winterthur yn sôn am y gwaith tua 1380—ryw hanner can mlynedd wedi marw'r teithiwr, a thybir i'r ddau hyn gydoesi am ryw ysbaid. Crybwyllir y daith hefyd gan Bartholomew Albizzi, o ddinas Pisa, ychydig yn ddiweddarach.

Tyfodd llu o chwedlau a thraddodiadau ynghylch ei fywyd, ond nid oes sicrwydd bod llawer ohonynt yn ddilys. Mewn bywgraffiad a ysgrifennodd Gabelli yn 1639, rhoddir 1286 yn flwyddyn ei eni, a bernir bod hyn yn gywir. Wele esboniad Yule ar enw'r brawd ac enw'r dref y preswyliai ynddi (C.W.T. ii, td. 7):—

“The name Odorico is the same that occurs north of the Alps as Ulric, and it is found in various shapes besides, such as Udalric, Vodaric, etc. It would seem to have been common about Pordenone, both as surname and Christian name. Our friar, therefore, might come by it in many ways, but perhaps he got it actually from the patron saint of his parish church, for that is Saint Udalric. One of the old Franciscan writers calls our traveller Ludovicus Odoricus, but it seems likely that this was a mistake . . .

. . . ‘Patria del Friuli’ borrowed its name from Forum Julii, a city represented by modern Cividale, and became the seat of a dukedom [568] under the nephew of Alboin when the Lombards first burst into Italy.

“Charlemagne extinguished the Lombard dukes, and from Friuli for a time was governed the Eastern March of the Frankish Empire. In the end of the ninth century or thereabouts, the administration of the province fell into the hands of the Patriarchs of Aquileia, whose seat had been at Cividale since 737; and in 1029 the Emperor Conrad II formally conferred on the Patriarch Wolfgang Poppo, the Duchy of

Rhagymadrodd

Friuli and the Marquisate of Istria. This Ecclesiastical principality continued to exist . . . until 1420. . . .

“The native district of Odoric was Pordenone, in that richer part of the Friulian Plain which lies towards the river Livenza. Pordonone itself, called in Latin, I know not of what antiquity, *Portus Naonis* [in German Portenau] is a quaint but thriving little city of some 7,000 inhabitants . . . on the banks of the Noncello, a tributary of the Livenza. . . . Odoric is said to have sprung from one of the garrison established in this district by Othokar, King of Bohemia, to whom the territory had passed from his cousin Udalric, Duke of Corinthia and Lord of Pordenone.”

Dyma esboniad inni felly, ar “Fforomlij de partu Vahonis” yn y testun Cymraeg 315. Fe ategir y dyb mai Bohemiad oedd tad Odrig gan air yn un o’r llsgrau. Lladin, sef *Bibliothèque nationale, Paris, MS. 2584*; dyma’r teitl uwchben y testun yn y llsgr. honno, “*Descriptio Orientalium Partium Fratris Odorici Boemi de Foro Iulii.*” Hefyd, fe ddigwydd “boemus” ar ôl ei enw ddwywaith yn nes ymlaen yn yr un llsgr., ond darfod ysgrifennu dros y paragraffau sy’n eu cynnwys.

Dywedir mai “Mattuissi” oedd enw teulu Odrig, ac yn ei ddinas ei hun, sef Pordenone, dangosir heddiw y tŷ, a hyd yn oed yr ystafell lle’r honnir y ganed ef. Yn agos i’r ddinas honno y ganed y paentiwr, Il Pordenone (1483–1539), yn*au, ac oddi wrthi hi y cymerth ef ei enw. Llofnodai ei enw “*Antonius Portunaensis*” neu “*De Portunaonis*” (ENC. BR. 22, td. 101). Dyna’n hollol fel y’i disgrifiasai Odrig ei hun, tua dwy ganrif o’i flaen.

Fe ddywed y bywgraffwyr eglwysig i Odrig ymddiofrydu yn urdd Sant Ffransis yn bur ieuanc, a mynd ohono i fynachlog Udine. Aberthodd bob cysur bydol, meddir, ac enillodd gryn glod am dduwioledeb a chyflawni gwyrthiau, cyn iddo ddechrau teithio.

Dechreuodd ar ei deithiau, fe dybir, rywdro rhwng 1316 a 1318, a dychwelodd yn gynnar yn 1330. Ni ellir casglu ond ychydig ffeithiau ynghylch yr amser, oddi wrth ei waith ei

Rhagymadrodd

hun, nac oddi wrth eiddo'i gyfoeswyr, ond fe geir ambell awgrym. Fe ferthyrwyd y brodyr y sonnir amdanynt yn y testun, td. 35.4, naill ai yn 1321 neu yn 1322, a dywed Odrig iddo ddatgladdu'u hesgyrn (td. 39.26). Ni allai, felly, fod wedi ymweld â Thana (ger Bombay) cyn pen ychydig flynyddoedd ar ôl 1321.

Eto, fe ddywed iddo dreulio tair blynedd yng Ngogledd China (td. 54.1), a gwyddom ei fod yn ôl yn yr Eidal ym mis Mai, 1330, pan ysgrifennwyd hanes ei deithiau. Bu farw ar y pedwerydd ar ddeg o Ionawr, 1331, yn ôl y gwahanol atodiadau i'r testunau Lladin o'i waith.

Er bod rhai o'i fywgraffwyr (e.e. Wadding) yn dweud bod Odrig yn "hau hadau'r Efengyl" wrth deithio, ac iddo droi llawer o Sarasiniaid i'r Ffydd Gristnogol, eto nid oes yr un awgrym o hynny yn yr hanes. Fodd bynnag, naturiol yw credu iddo helpu'r brodyr gyda'u gwaith cenhadol, pan fu'n aros yn y mynachlogydd yng Nghambelech (Peking), ac yn Armenia ond odid. Awgryma iaith ac arddull Odrig y llyegwr anturiaethus, yn hytrach na'r clerigwr santaid, ac mewn cysylltiad â hyn fe goffeir inni gan Yule eiriau Thomas à Kempis, "Qui peregrinatur, raro sanctificatur". Ni sonia'r brawd ei hunan am wyrthiau yr honnir iddo'u cyflawni, nac am brofiadau arbennig y dywedir iddo'u derbyn.

Newidiodd gymaint o ran pryd a gwedd, meddir, dan y cyni^x a ddioddefodd wrth deithio, ag nad adnabu'i geraint ef pan ddychwelodd i'w gynefin. Fe edrydd yr atodiadau ddarfod iddo ymddeol i fynachlog ei Urdd, berthynol i Eglwys Sant Antwn ym Mhadua, ac yn y fynachlog hon, yn 1330 yr adroddodd hanes ei deithiau wrth Guilelmus de Solangnia, a hwnnw'n ysgrifennu'r cwbl a glywai mewn 'Lladin cartref'. Ond mewn dau destun (Bollandist a Farsetti) ceir atodiad gan y Brawd Marchesinus de Bassano, a honna iddo glywed y stori o enau Odrig ei hun, gan chwangu "nam plura audivi quae ipse non scripsit". Fe gesglir oddi wrth hyn fod llawer o bobl yn gwrando ar Odrig yn adrodd ei hanes, eithr mai Guilelmus de Solangna a'i

^x anguish, distress, adversity

Rhagymadrodd

rhoddodd ar femrwn, ac yntau'n gadael rhyw bethau heb eu cofnodi.

Wedi hyn, cychwynnodd y teithiwr o Badua ac aeth i Bisan gan ddarofun hwylio i Avignon at y Pab, er mwyn rhoi adroddiad, fe dybir, ynghylch cyflwr yr eglwysydd a welsai yng ngwledydd y Dwyrain. Daeth afiechyd i'w luddias, a gorfu iddo ddychwelyd i Udine, lle y bu farw, fel y dywedwyd eisoes, ar y 14eg o Ionawr, 1331.

to intend
purpose
hinder
prevent

Bu llawer o sôn am y rhyfeddodau a ddigwyddodd ar ddydd ei angladd, megis cael o bob claf a gyffyrddai â'i gorff ef, iachâd. Yna, wedi ei gladdu, codwyd ef o'i fedd, gan gynifer o bobl o bob gradd a dyrrai i Udine i'w weld. Wedyn, trosglwyddwyd ei gorff i arch harddach, a bu bri mawr ar sôn am ei glodydd a'i santeiddrwydd.

Aethpwyd ati i gasglu'r hanesion am ei wyrthiau honedig, ac yn 1332 fe godwyd iddo ysgrîn wych yn Udine, a lluniau celfydd o'r brawd wedi eu naddu arni, a rhoddwyd ei arch yn hon¹. Bu raid symud y cwbl i gapel newydd wrth adgyweirio eglwys y Ffransisiaid yn Udine yn 1735, a thrachefn yn 1770 fe'i cludwyd i le arall, sef eglwys y "Beato Vergine del Carmelo", ond wrth wneuthur hynny fe ddrylliwyd yr ysgrîn. Rhoddwyd darnau ohoni mewn allor a gyflwynwyd i goffadwriaeth y sant, ac yn yr allor hon y gorwedd ei arch a'i weddillion heddiw. Ar wyliau arbennig fe'u datguddir i gynulleidfa'r eglwys.

Y mae'n ffaith hynod na seintwyd Odrig gan Bab cyn 1755, er bod y traddodiad lleol, o gwmpas Udine, yn ei ystyried yn sant er yn fuan ar ôl ei farw. Yr unig waith llenyddol y gellir ei briodoli'n ddilys iddo ef yw'r *Itinerarium*, sef hanes ei deithiau.

iii. Y TESTUNAU.

Dangosir pa mor enwog a pha mor boblogaidd oedd yr *Itinerarium*, gan y nifer mawr o wahanol destunau sydd ar

¹ C.W.T. ii, td. 21-22.

Rhagymadrodd

gael o'r gwaith. Gwyddys am 50 yn y Lladin, 18 yn yr Eidaleg, 6 yn y Ffrangeg, 2 yn yr Almaeneg, heblaw'r testun Cymraeg a chyfieithiadau Saesneg diweddar, megis eiddo Hakluyt (s.H.) a Yule (s.Y.).

Fe gred Cordier (c.w.r. ii, td. 26) fod pedwar dosbarth o drosiadau o'r hanes, ac y cynrychiolir hwy gan y llsgrau. a ganlyn :—

1. Llsgr. Ladin yn Llyfrgell St. Marc, a darnau yn *Acta Sanctorum* o lsg. arall a gopiwyd gan Henry de Glatz yn Avignon, ychydig wedi marw Odrig. (Ni ddigwydd enw G. de Solangna yn y rhain.)
2. Llsgr. Ladin a gyhoeddodd Venni. (Ceir atodiad G. de Solangna yn hon.)
3. Dwy lsg. yn y Brit. Mus. (Royal 14, ac Arundel 13) y cyhoeddwyd un ohonynt gan Hakluyt. (Cynhwysant atodiad G. de Solangna, ond y maent yn wahanol iawn eu harddull i'r ddau ddosbarth cyntaf.)
4. Y testunau Eidaleg, megis y "Minor Ramusian", a gyhoeddwyd yn *Navigazioni* Gian Battista Ramusio (argraffiad 1574 o'r ail gyfrol).

Y mae cryn wahaniaeth rhwng y pedwerydd dosbarth a'r lleill; yn ôl y dosbarth hwn fe aeth y teithiwr o'r India yn syth i Ynysoedd Nicobar (Machimoran), ond yn y lleill fe enwir Nicobar ar ôl Champa (Campa), ac yna Ceylon (Silan), na sonnir amdani yn y testunau Eidaleg. Awgryma Cordier fod Odrig wedi ysgrifennu rhan, o leiaf, o'r hanes eisoes, cyn ei adrodd wrth G. de Solangna, ac i rai o'r copïwyr gael gafael yn y rhan honno a rhoi'r cyfeiriad at Nicobar, etc., i mewn yn rhywle, heb fod yn ofalus ym mha le; a digon naturiol yw ei awgrym. Digwydd y sôn am "Silan" lawer yn rhy ddiweddar yn ein testun Cymraeg, a hyd y gwelais i wrth gymharu, testun o'r trydydd dosbarth uchod oedd o flaen D.F. wrth

Rbagymadrodd

gyfieithu. Crynhoais isod restr o rai llsgrau. a allai fod wedi dyfod i'w law :—

- A. *Lladin* 1. Cambridge. Corpus Christi MS. 275 ;
15th cent.
 2. Cambridge. Corpus Christi MS. 407 ;
end of 14th cent.
 3. Middlehill (Worcestershire). MS. in the library of
Sir Thomas Phillips (Ex libris Ioannis Iulii), circa
14th cent.
 4. London, British Museum. Royal Coll. 14. [H.]
 5. " " " Cottonian Otho. D.I.
 6. " " " Arundel MS. No. 13
(fol. 38—fol. 51 verso),
14th cent. [AR.]
 7. " " " Harleian MS. 562 (in-
complete).
 8. Oxford. Bodleian. 14th cent. (Digby MSS. K.D. 11).
 9. Glasgow. Library of Hunterian Museum MS. 15th cent.
 10. " " " " " " 14th cent.
 11. Paris. Bibliothèque nationale, lat. 2584. 14th cent.
[B.N.]
 12. " " " " " 3195. 15th cent.
- B. *Eidaleg*. Cheltenham. MS. from library of Sir
Thomas Phillips, Middlehill (Worcestershire),
14th or 15th cent.

Cyhoeddwyd llsgr. Ladin (rhif 11 uchod) gyda chyfieithiad Saesneg, gan Yule yn ei *Cathay and the Way Thither* (2 gyfrol) yn 1866, a chyfeirir isod at y testun fel y ceir ef yno fel B.N. Hefyd fe gyhoeddodd Hakluyt destun Lladin yn ei *Principal Navigations Voyages Traffiques & Discoveries* (vol. IV. Glasgow Univ. Press. 1904 edn.). Cred Yule a Cordier mai o rif 4 uchod y cafodd Hakluyt ei destun, a chyfeirir yma ato fel H.

Rbagymadrodd

Eto, fe gyhoeddwyd testun Lladin arall yn *Acta Sanctorum* (Bollandist) o dan "XIV Ianuarii", sef y testun a elwir yma yn BOLL., eithr y mae hwn wedi ei drychu ormodd i fod o fawr ddefnydd wrth gymharu â'r Gymraeg.

Ni chefais gyfle i gymharu cyfieithiad D.F. yn fanwl, ond â'r tri thestun Lladin hyn (H, B.N., a BOLL.); ond er hynny, mae digon o ddyfyniadau yn C.W.T. o destunau eraill, a'r amrywiaeth a geir ynddynt, i ddangos mai o destun hynod o debyg i H, yn anad yr un arall, y cyfieithwyd i'r Gymraeg. Y mae'n amlwg hefyd fod H. ac AR. yn dra thebyg i'w gilydd.

Dyma ychydig esiamplau i ddangos gymaint yn nes yw'r trosiad Cymraeg i H. na B.N. :

| TD. | D.F. | H. | B.N. |
|-------|-----------------------------------|-------------------------------------|---|
| 31.5 | de partu Vahonis | de portu Vahonis | — |
| 33.9 | debygaf i | ut credo | — |
| 33.16 | heb neb yn . . . kynnal yndunt | non habitata | inhabitabilia. |
| 45.17 | Bodin | Bodin | Dondin |
| 46.23 | ac cu barueu gwedy eu beillyaw | & rasas & parvas barbas habentes | barbam ita raram et longam sicut . . . |
| 47.25 | gwraged . . . wryawc | fæminae . . . desponsatae | mulieres innuptae |

Ni ellir ond dyfalu pa drosiad a ddaeth i law D.F.; ond gellir bod yn weddol sicr mai un Lladin oedd. Yr oedd yr *Itinerarium* yn dra phoblogaidd yn Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, ond bu raid i Loegr aros hyd ddiwedd yr unfed ar bymtheg am y stori yn y Saesneg, nes i Hakluyt gyhoeddi'i gyfieithiad ef. Y mae'n wir bod chwe thestun Ffrangeg yn hen, ond nid oes nemor ddim yn ein cyfieithiad a awgryma mai o'r Ffrangeg y troswyd ef. Nid yw'n debyg y byddai hyd yn oed offeiriad dysgedig yng Nghymru yn gyfarwydd â'r Eidaleg, ond ni allai fod yn ei

Rbagymadrodd

swydd, bid sicr, heb wybod Lladin yn dda. Gellir tybied, ynteu, mai testun Lladin a gyfieithodd D.F., a hwnnw'n perthyn, efallai, i'r trydydd dosbarth o drosiadau.

iv. PWYSIGRWYDD ODRIG FEL TEITHIWR.

Rhwng 1357 a 1371 fe ysgrifennwyd yn y Ffrangeg, hanes teithiau honedig "Jehan de Mandeville". Galwodd y Saeson ef "Sir John Mandeville", a'r cywyddwyr Cymreig "Syr Siôn Mawndfil" (gw. LL.C.G.R. I, td. 74, 100, 101). Bu'r gwaith hwn mewn bri mawr a chyfieithwyd ef i lawer o ieithoedd Ewrop. Fodd bynnag, gwyddys yn awr mai ffug oedd yr enw "Jehan de Mandeville", ac mai o waith y Brawd Odrig y cymerwyd rhan helaeth iawn o'r 'hanes'. Disgrifiad benthg sydd ganddo o'r lleoedd a ganlyn:—Trebizond, Erzerum, Ararat, Cassan, "Y Môr Tywawt", Twr Babel, "Lamwri", Sumatra, Java, Champa, Nicobar, "Silan", a Dondin. Er hynny, llwyddodd "Syr Siôn" i ddiethrio ychydig ar ei ddisgrifiadau, drwy chwanegu manylion am leoedd a phethau na allai fod wedi eu gweld ond wrth grwydro ym mroydd ei ddychymyg.

Daeth y tebygrwydd rhwng storïau Mawndfil ac eiddo Odrig i'r golwg cyn gynhared ag y ceir mewn un llsg. Ladin o'r *Itinerarium* (yn llyfrgell Mainz), y geiriau hyn:—"Incipit Itinerarius fidelis fratris Odorici *socii Militis Mendavil* per Indiam; licet hic [= ille] prius et alter posterius peregrinationem suam descripsit". (ENC. BR. 17, td. 562). Awgrymwyd hefyd mai Odrig a fenthyciodd gan Fawndfil!

Diddorol, am hynny, fydd sylwi ar ychydig ffeithiau a brawf fod Odrig yn deithiwr dilys, a'i fod yn traethu o "gyndrycholyaeth":—

1. Ef yw'r cyntaf o Ewrop i sôn am Sumatra.
2. Y mae ei ddisgrifiad o sago, sef y "blawd" a geir o goed (td. 42.13) yn wallus, ond camsyniadau sylwedydd, nad oedd yn ddigon craff, sydd ganddo.

Rbagymadrodd

3. Y mae ei ddisgrifiad o fanion ynghylch Ceylon (Silan) a China yn profi'n lled sicr iddo ymweld â'r gwledydd hynny, e.e. y gelennod, a'r aderyn â chanddo ddau ben; y pysgota â mulfrain (na sonnir amdano yn y cyfieithiad Cymraeg); yr ewinedd hirion, a'r traed bach.
4. Ef yw'r cyntaf o Ewrop i gyfeirio at Lhasa,—os y dref honno hefyd a olyga pan sonia am brif ddinas Tibet (gw. td. 54).

Yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg bu llawer o deithio o Ewrop i Gatai, ac ysgrifennwyd hanes eu helyntion gan lawer o'r teithwyr. Dyma'r rhai pwysicaf ohonynt:—

1. Joannes de Plano Carpini,—brawd yn urdd Sant Ffransis, a chyfaill a disgybl i'r sant hwnnw. Teithiodd rhwng 1245 a 1247 ym Mongolia. [ENC. BR. 5-397d.]
2. Willielmus de Rubrūquis, (c. 1215-1270)—brawd arall yn yr un urdd, o bentref Rubrouck yn Fflandrys. Teithiodd i lys y Cân Mawr rhwng 1253 a 1255, ar arch ei frenin Lewys IX. [ENC. BR. 23-810a.]
3. Hayton (Haithon, Hethum)—brenin Armenia Leiaf, neu Cilicia, a ymwelodd â'r Cân Mangu 1254-1255. [ENC. BR. 13-114d.]
4. Y ddau frawd Nicolas a Maffeo Polo, a mab y cyntaf, sef Marco Polo. Yr olaf hwn oedd y pwysicaf o holl deithwyr yr oesoedd canol. Estynnai cyfnod teithio'r tri theithiwr hyn o 1260 hyd 1295, ac ysgrifennwyd yr hanes, ynghyda disgrifiad gwerthfawr o wledydd y Dwyrain, o enau Marco Polo gan ei gyd-garcharor Rusticano o ddinas Pisa, yng ngharchar Genoa. [ENC. BR. 22-7c.]
5. Giovanni di Monte Corvino,—cenhadwr Ffransisaidd [ENC. BR. 18-763d.] Dechreuodd ar ei daith i'r Dwyrain tua 1289, a sylfaenodd y genhadaeth Gristnogol gyntaf yn yr India a China, a gwnaethpwyd ef yn archesgob "Cambelech" (sef Peking) yn 1307. Cododd fynachlogydd y sonia Odrig amdanynt (td. 47.4).

Rhagymadrodd

Ar ôl hyn aeth llawer o fyneich o'r Eidal i Gatai a'r India, i'r genhadaeth a ddechreusid gan G. di Monte Corvino; ac ysgrifennodd rhai ohonynt hwythau ynghylch yr hyn a welsent. Ymysg y rhain gellir enwi Andreo o Perugia,¹ a ddaeth yn Esgob Saitan (td. 47.4), a John o Cora,² a fu'n Archesgob Sultaniah, ac yn bwysicach fyth, Odrig ei hun. Tua'r un cyfnod ysgrifennwyd *Mirabilia* Jordanus³, ond ymddengys mai casgliad o weithiau teithwyr eraill oedd ganddo ef, gan mwyaf.

Heblaw'r gwŷr eglwysig hyn, y mae profion bod marsiandwyr yn teithio'n aml o Ewrop i Gatai (nis gelwid yn "China" eto), yn amser Odrig, a hyd at ddiwedd arglwyddiaeth y Mongoliaid yn y wlad enfawr honno, sef hyd at ganol y 14eg ganrif. Wedi hynny, am yn agos i ddwy ganrif, bu distawrwydd mawr, heb unrhyw sôn yn Ewrop am Gatai, gan fod ei llywodraethwyr yn gomedd i estroniaid groesi ei therfynau. Yna pan allodd y darganfyddwyr o Sbaen a Phortugal fynd yno, nid oedd sôn bellach am yr hen enwau *Catai* (Cathay), *Cansay*, *Saitan* (Zaytun), *Khân Bâliq*, etc., ond erbyn hyn am *China*, *Hang-Chau*, *T'swan-Chau-Fu*, *Peking*, etc. Y mae'n wir, er hynny, i rai cenhedloedd lynu'n ddygn wrth ryw ffurf neu'i gilydd ar yr hen enw *Catai*, yn hytrach na *China*, yn enwedig y Rwsiaid, y Groegiaid, a'r Persiaid.

Fe ledodd Cristnogaeth dros Fesopotamia a Phersia erbyn dechrau'r 5ed ganrif, eithr daliadau Nestorius (a ystyrid gan Gristnogion eraill yn anuniongred), a ffynnodd fwyaf yn y gwledydd hyn. Ni wyddys pa bryd y lledodd y grefydd newydd i Gatai, ond yn sicr cyn chwarter cyntaf yr wythfed ganrif. Wedyn, tua'r nawfed, bu Cristnogaeth ar drai, ond o dan y Mongoliaid, dychwelodd y llanw hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ac yna yn ystod ysgariad y wlad oddi wrth weddill y byd, fe ddarfu am yr hen eglwysi Ffransisaidd a Nestoriaidd.

Am tua chanrif cyn cwmp y Mongoliaid, bu mwy o fasnach a chyfathrach rhwng Catai a'r Gorllewin, a mwy o

¹ENC. BR. 11-625a. ²ENC. BR. 6-190a. ³ENC. BR. 15-512a.

Rhagymadrodd

ryddid i estroniaid deithio yn y wlad, nag a fu mewn unrhyw gyfnod arall yn ei hanes, hyd at yr hanner canrif diwethaf hwn. Yn niwedd y cyfnod hwnnw, fel y gwelwyd, y teithiai Odrig, a hawdd deall, felly, pa mor bwysig yng ngolwg haneswyr a daearyddwyr Ewrop yw gweithiau fel yr *Itinerarium*, sydd yn rhyw ddolen rhwng hen fyd Catai a byd newydd China.

v. Y CYFIEITHIAD CYMRAEG.

A. ORGRAFF.

Y mae orgraff y testun yn gyson ar y cyfan; wele rai o'i nodweddion amlycaf:—Ni saif *d* ac *c* ar ddiwedd gair ond am *dd* ac *g*; eithr gall *t* sefyll am *t* yn gystal â *d*; “gwnaut” (39.11), “gwaet” (51.24). Ni cheir *p* am *b* hyd yn oed ar ddiwedd gair, “neb” (33.16), “pawb” (32.22), “heboe” (52.26) (td. 52.16 “bop tu” = “boptu”, cf. 56.25). Fe ysgrifennir *u* a *v* bob un am ei gilydd, ond ar ddechrau gair ceir *v* fel rheol, ac *u* yn ei ganol; “vuyd” (ufydd) 38.7; rhoir *fu* am *v* yn “sefuyll” 51.26, ac *f* ar ddiwedd gair am *v*, “llef” 35.20. Saif *f* hefyd yn aml am *ff*; “ford” 32.6, “fford” 31.1; “ysgraf” 38.14, “seirff” 44.23.

Dynodir *i* gytsain ag *y* gan mwyaf, ond weithiau ag *i*; “noethyon” 41.6; “hirion” 33.30. Ceir *idan* wyth waith ac *ydan* bymtheng waith, ond nid oes newid ar *idi*. Y mae *o* (< *aw*) yn y sillaf olaf yn “diwarnot” 39.21, 46.27; ac *ai* (< *ei*) yn “pai” 53.31, a “tybyassai” 38.13. Ceir *b* estron weithiau, megys yn “kymherth” 31.22, “mamheu” 55.17.

Gan mai Deheuwyr oedd y cyfieithydd, y mae ansicrwydd ynghylch olddodiaid enwau ac ansoddeiriau lluosog, ac ychydig ferfenwau; “kedymeithon” 32.30, “kedymeithyon” 39.30; “breisson” 41.21, “breisson” 41.15; “dwylyaw” 38.9; “rwymyaw” 34.6. Defnyddiodd y copiwr ffurfiau amryfal ar y llythrennau *w*, *r*, *s*, *m*, ond nis dynwardwyd yn yr argraffiad hwn.

Rhagymadrodd

B. TREIGLIADAU CYTSEINIAID.

Dangosir isod y nodweddion a berthyn i dreigliadau cytseiniaid yn y testun.

i. *Meddal*. Meddelir cytsain ddechreuol testun berf yn y 3 pers. un. amherff. a gorberff. :—35.32 safei *wr*; 38.13 tybyassai *bawb*; 38.11 yr oed *bawb*; 35.7 oed *Grist*; 42.9 nyt oes *waret*.

Pan fo'r ans. *marw* yn rhan o'r cymhwylliad, nid oes cysondeb ynglŷn â'i feddalu; 38.14 bydynt *veirw*; 34.7 a vont *veirw*; 56.10 a vydei *varw*; 43.29 pan vo *marw*; 45.28 a vyd *marw*; 46.1 a phan vo *marw*; 54.21 pan vo *marw*; 45.31 byd *marw*. Tueddir felly i beidio â meddalu; cf. 45.27 a vyd *byw* hwnn; 45.29 byd *byw*. Y mae ans. ar ôl *yssyd* yn treiglo; 32.2 yssyd draoeruelawc; 37.35 yssyd wrthwyneb.

Erys gwrthrych berf yn aml heb dreiglo, e.e.:—39.17 rodes barn; 43.3 a atwaen gwyrtheu; 48.20 gallo manegi; 54.34 pan wnel gwled; 55.27 a wnant tan; 32.19 a dywedassant bot; 37.34 chwi a wdawch bot; etc. Ar y llaw arall ceir llawer o enghreifftiau o'i feddalu, e.e.:—34.27 a allei hi broui; 33.11 ny dichawn [neb] vot; 34.13 a adolant eu duweu; 44.17 ny beid neb wasgu; 40.1 ni a gawssam long; etc.

Ar ôl sangiad meddelir mor aml â pheidio, e.e.:—31.13 yn arwein ganthaw *mwy*; 37.6 a pheri ydaw *wisgaw*; 41.15 bwytaant hwy *kic* dynyon . . . megys ninheu *gic*; 47.11 dwyn a wneynt *vwyden*, etc.

ii. *Trwynol*. Dengys yr enghreifftiau canlynol sut y ceisiodd D.F. ddynodi'r treigliad hwn:—34.18 vy mrodyr; 38.30 vy penn; 40.27 vyng *kic*; 39.29/30 vypenn; 40.27 vyn Duw; 41.11 vyngwreic; 42.21 vyn dogyn; 56.20 ynghallon; 56.30 vynghtwybot; 57.2 vy mot; 36.35 ymplith; 37.20 ym Mecha; 39.1 ynghyfyrgoll; 39.3 ymhob; 35.30 yngwres; 48.11 yn ty hwnnw; 48.20 yn dinas Kanasia; 50.18 yngwlat; 51.3 ynghenawl;

Rhagymadrodd

51.6 ym pob; 53.2 ynghyueir; 53.11 ynghylch; 53.13 ynghongyl; 53.20 ym pob; 56.22 ymlaen; 55.24 dec niwarnawt; 42.17 bymthec diwarnawt; 44.25 gant mlyned.

C. Y MODD DIBYNNOL.

Dosbarthwyd yr achlysuron y defnyddir y modd dibynnol yn y testun fel y canlyn:—

- i. Pan fo'r ferf yn yr amser pres., ar ôl y cysylltiaid *pan*, *tra*, ac *yny*, e.e. 43.29 pan vo; 40.26 pan del; 40.29 pan ymleasso; 44.8 pan elont, etc.; 44.15 a thra vo; 55.18 tra vont; 45.30 yny vo.
- ii. I ddynodi pwrpas, e.e.:—45.5 megys y gallont; 48.19 megys . . . y gallo; 55.15 mal y gallont; 52.34 val y caffo.
- iii. Mewn brawddeg berthynol, lle bo'r syniad a gyfleir gan y ferf yn gyffredinol neu amhenodol. e.e.:—
indefinite, vague
40.17 a phawb o'r y *kybyrdo* y kart ac wynt; 40.28 kymher yr hynn a *dorro*; 41.12 plant a dygant y'r mwyaf a *garont*; 44.10 a'r rei a *delont* mywn brwydreu; 51.9 y bawb y gymryt diodyd o'r a'e *myнно*; 51.24 y rei a *hanffo* o'e waet; 52.1 mein margarit a *dalo* dengmil o floringot; 47.25 y gwraged a *veynt* wryawc; 56.10 pwy bynnac a *elei*.

Y mae'r syniad yn ddyfodol yn 51.23, yr hwn a *wledycho* gwedy ef (Cf. STRACHAN INTR. td. 70, a LL.LL.C. td. 29; lle y dangosir mai amser presennol y modd dibynnol a ddynoda'r dyfodol yn y Llyd.). Cyffredinol yw'r syniad yn 46.8, y rei onyt a *vei* gyndrychawl, a 39.19 aruer y wlat honno yw na *rodher* y kyrrf.

- iv. Mewn brawddegau amodol, e.e.:—53.30 Y rei nys *credvн* vyth pai nas *gwelwn*; 56.2 wynt a *ymboelynt* . . . pei na *bei*.

Rhagymadrodd
oblique?

- v. Mewn cwestiynau traws amhenodol, e.e.:—36.31 “A chwi a welwch beth a *wneI*”; 38.33 “y ymgynghori ac ef beth a *wneI*”; 34.27 “ynteu a ouynnawd idi a *allei* hi broui hynny” (yn 45.23 “ymouyn a’e duw beth a *deruyd* [mynegol] am y dat”, y mae’r syniad yn benodol).
- vi. Mewn brawddeg yn dibynnu ar frawddeg sydd eisoes â’i berf yn y modd dibynnol, e.e.:—56.10 “pw y bynnac a elei . . . ef a vydei varw kyn *elei* . . .”
- vii. Mewn brawddeg gymharol lle bo’r syniad yn amhenodol, e.e.:—37.23 “gwna val y *mynych*”.

CH. ARDDULL.

Fel y gellid disgwyl mewn cyfieithiad yn y 15fed ganrif, y mae llawer o olion cyfieithu ar y gwaith. Dengys y cystrawennau a ganlyn y dylanwad amlycaf:—

1. Gwneuthur brawddeg dro o frawddeg seml, heb alw am hynny, e.e.:—32.18 “Yr holl vyt a geiff dyvot” (caiff yr holl fyd ddyfod).
2. Peri i’r ferf gytuno â’i thestun pan fo hwnnw’n enw, e.e.:—33.15 “y maent llysoed”; 53.16 “syrthant y barwnyeit”, etc. (Y mae hon yn wahanol i’r gystrawen mewn Cymraeg Bore, lle gwelir berf luosog gyda thestun lluosog; gw. ymdriniaeth H.L. yn z. C.P., cyf. XVII, td. 107-110).
3. Peri i’r ferf gytuno â rhagflaenydd y rhagenw perth. *a*, e.e.:—“amryuaelyon dynyon a draethasant”, 31.3.
4. Gorddefnyddio *yr hwnn*, *yr honn*, *y rei* o flaen y rhagenw perth., e.e.:—32.25 “dinas . . . yn yr hwnn y byd”; 34.16 “llygot mawr y rei y byd kwn yn eu daly”.
5. Rhoi geiriau heb ystyr iddynt, neu lygru ffurfiau drwy fethu deall y gwreiddiol, e.e.:—31.12 “ysgala”; 34.16 “maenones a nocue”; 48.29 “maranones”; 41.17 “bydawl”.

x of neoch (Casswell etc.)

Rhagymadrodd

6. Rhoi'r fannod o flaen enw sydd ag enw arall yn dibynnu arno, e.e.:—51.1 “y prif balis y brenhin”; 54.9 “o'r deudec province yr arglwyd”; 48.17 “o'r lle dwyrein heul”.
7. Cyfieithu priod-ddull yn llythrennol, e.e.:—44.1 “hyt parth a *banner dyd*” (“*versus meridiem*”).
8. Defnyddio'r arddod. o gydag enw yn hytrach na rhoi'r enw yn y cyflwr perthnasol, e.e.:—31.12 “o Bers a Medi” (“*Persarum & Medorum*”).

Eithr er hyn i gyd, y mae yn y testun lu o enghreifftiau o arfer priod-ddull Cymraeg yn wyneb temtasiwn gref i gyfieithu'n llythrennol. Sylwer ar enghr. neu ddwy:—

- (a) 51.33 “A phob un ohonunt a gwisc o vrethyn eur amdanaw” (“*et quilibet portat unam vestem de auro*”); 36.3 “chwitheu” (“*autem vos*”).
- (b) Defnydd idiomatig y berfenw:—38.5 “ennill” (“*adipiscamur*”); 39.8 “ordinhau” (“*inhabitari fecit*”); 46.4 “a dywedut” (“*respondit*”).
- (c) Brawddeg gymharol yn dynodi effaith:—35.31 “kymeint yw gwres yr heul [ac na] safei wr . . . heb varw” (“*Tantus enim est calor solis ibi, quod . . . homo . . . moreretur*”).

Y mae gan y cyfieithydd eiriau benthyg o'r Saes. a'r Ffr. a arferid yn gyffredin yn ei ddydd, ac ni phetrusa gymreigio gair estron pan na wypo am air Cymraeg a weddo, neu pan nas deallo. Fe ddengys aml ddarn fod gan Ddafydd Fychan, pwy bynnag oedd, lawer o reddf y llenor, a'i fod yn gryn ysgolor.

D. Y TESTUN.

Argreffir y testun isod heb ddynwardd na llythrennau hynod y llawysgrif na'i hatalnodau. Rhannwyd y gwaith yn benodau a pharagraffau, a rhoddwyd teitlau i'r penodau. Rhoddais atalnodau newyddion ynghyda dyfyn-nodau, etc.

Rhagymadrodd

Y mae'r darlenniadau ansicr, a chwanegiadau'r golygydd mewn bachau petryal, a chwanegiadau amryfus copiwr y llawysgrif mewn cromfachau. Lle y cywirwyd gwall copïo, dynodir hynny ar waelod y tudalen. Cyfeiria'r rhifau mewn bachau petryal a geir yng nghorff y testun at golofnau'r llawysgrif.

FFORD Y BRAWT ODRIC

[I. ARMENIA FWYAF.]

[234 ll. 5]

Llymma y treithir o fford y Brawt Odric a gerdawd llawer o'r byt.

Amryuaelyon dynyon a draethassant o enryuedodeu y daear a'e hansawd. Minheu, y Brawt Odric, o greuyd y Brodyr Troetnoeth, yn broffessawl o Fforomlij de partu Vahonis, a vynnais drauaclu y amryuaelyon wledyd y weled enryuedodeu a dirgelrwyd. Y rei, trwy wirioned, a draethaf i rac llaw gan borth Duw. *parth = cymorth*

Yn gyntaf mi a gerdeis trwy y Mor Mawr hyt ynghon-statinobyl. Odyna hyt yn Trapesundan¹, yr honn gynt a elwit Pontus. Y tir hwnnw yssyd y adeiladeu a'e ansawd megys ysgala o Bers a Medi, ac eidunt yw yssyd tramor. Yn y tir hwnnw y gwelais i wr yn arwein ganthaw mwy no phedeir mil o bartrissot; a'r gwr a gerdei ar y daear [a'r partrissot] a ehedynt yn yr awyr. Y rei [235] a arwedawd ef velly hyt ynghastell Nazarena, yr hwnn a oed o Drapesundam siwrnei dri diwarnawt.

Hynn oed aruer ac ansawd y patrissot. Pan vynnei y gwr uchot gorffywys, y patrissot a gynnullynt yn y gylch megys kywion iar ynghylch eu mam. Ac yn y mod hwnnw yd harwedawd ef wynt hyt yn Trapesundam, palis yr amherawdyr. O'r rei y kymherth ef a vynnawd, a'r rei ereill, eu gollwng wrth y ewyllus (y harwedawdyr).

Yn y dinas hwnnw y mae corff Athanasij ar uchaf y porth yn gorffywys.

Odyna y kerdeis y Armenia Vwyaf, y dinas a elwit Azaron, yr honn a oed frwythlawn gynt, kynn y wyr Tartari y dinustyr a llawer o'e hadurn. Yn honno yr oed digoned o vara a chic

¹ Llsg. *Trapesun dan*

Ffordd y Brawd Odrig

ac amryuaelyon vwydeu a llynn dieithyr gwin a frwyth koet. Y dinas hwnnw yssyd draoeruelawc, ac ysef achaws yw, ywch y mae yn seuyll no dinas arall o'r holl vyt. Yn honno y mae y dyfred goreu; kans o'r avon vawr a elwir Eufrates y mae eu boned, yr honn nyt yttiaw namyn siwrnei diwarnawt y wrth y dinas. Y dinas hwnnw yssyd hanner y ford y vynydd Cawsiriwm.

Odyna y kerdeis i y'r mynydd a elwit Sobissatolo. Yn y wlat honno ymae y mynydd lle mae llong Noe yn gorffywys; ac yno yd athoedwn i, pei [236] cawssodwn y gan vyinghydmeithon vy aros. Pobyl y wlat honno a vanagassant y mi na allawd dyn ciryoet ysgynnu y mynydd hwnnw, kanys dywedut a wneynt nas mynnei Duw.

Odyna y deuthum i y dinas mawr brenhinawl a elwit Tabris, yr hwnn a elwit Suseris. Y dinas hwnnw a dywedut y vot yn well o varsiawndaeth ac ymborth no neb vn arall yn yr holl vyt. Y dinas hwnnw a deryw y (y) adeilyat yn da, kanys yr holl vyt a geiff dyuot ydaw. A'r Cristinogyon a oedynt yndi a dywedassant bot yr amherawdyr yn kaffel mwy o gyllit ohenei no brenhin Freink o'e holl vrenhinaeth.

Geir llaw y dinas hwnnw y mae mynydd Salinus yn gwasanaethu y dinas o halen, y bawb y gymryt a vynno, heb dalu dim drostaw. Yno y mae llawer o Gristynogyon yn presswylyaw y dan arglwydiaeth Sarasinyeit.

Odyna y kerdeis i XII siwrnei y dinas Soldonia, yn yr hwnn y byd amherawdyr Pers amser haf yn presswylyaw; y gaeaf yd a ynteu odyo y dinas yssyd ydaw ar ystlys y mor, yr honn a elwir Bacuc; yr honn yssyd ehalath ac oeruelawc a dyfred da yndi. Y honno yd hebryngir llawer o varsiandaeth.

[II. "YR INDIA UCHAF."]

Odyna y gyt a chedymeithon o Sara[237]sinyeit, y kerdeis i y tu a'r India Uchaf; a chan gerdet llawer o diwarnodeu, mi a deuthum y dinas y tri geu duw, yr honn a elwit Cassar—dinas brenhinawl arbennic dieithyr daruot y wyr Tartari y

Ffordd y Brawd Odrig

dinustyr yn vawr. Honno yssyd frwythlawn o vara a gwin ac amryuaelyon ymbortheu. Ac o'r dinas hwnnw hyt yngharusalem, y'r lle yd oed y tri brenhin gynt, y mae dec siwrnei a deugeint, a llawer o amryuaelyon yssyd yn y dinas honno, y rei yd [awn] drostunt ar hynnt.

Odyna mi a gerdeis y dinas a elwit Gest, yr honn yssyd y wrth y Mor Tywawt vn siwrnei. Y mor hwnnw yssyd enryued a pheriglus. Yn y dinas hwnnw y mae amylder o frwytheu ac ymborth; mwy, dybygaf i, noc yn lle arall o'r byt. A hwnnw yw y trydyd dinas goreu o vre[n]hinaeth Pers. Yn hwnnw, med y Sarasinyeit, ny dichawn [neb Cristyawn] vot yn vvw hwy no blwydyn.

Odyna, gan gerdet llawer o siwrnioed, mi a deuthum y hen dinas mawr a elwit Comwn, yr honn yr oed yn y chylch ogylch dec milltir a deugeint. Yn honno y maent llysoed mawr kyua arderchawc heb neb yn [238] (yn) kynnal yndunt; eissoes ymborth digawn a oed yndi.

Odyna trwy lawer o wledyd mi a deuthum y'r lle a elwir (a elwir) Tir Job. Yno yd oed digawn o ymborth ac adeiladeu tec. Geyr llaw y tir hwnnw y mae mynyded lle y keffir amylder o'r manna, sef yw hwnnw, ymellin nef. Yno y keffir newit tec ar bartrissot; yno y maent llawer o hen dynyon; yno y gwyr a nydant, ac nyt y gwraged. Y tir hwnnw a ymystyn hyt tros y mynyded uhot o benn Calde.

[III. CALDEA A'R "INDIA".]

Odyna y kerdeis i y'r vrenhinaeth vwyaf a elwir Caldea, hyt ar y Twr Babel. Yn y wlat honno, tec vyd y gwyr a hgyr vydant y gwraged. Yno, y gwyr a ardunyant eu gwallt ac eu penneu, megys gwraged yngwladoed ereill, o eur a mein. Yno y gwraged a gerdant oc vn crys gogwtta hyt eu glinyeu, a llewys hirion udunt hyt y daear; ac yn droetnoeth y kerdant.

Odyna mi a deuthum y'r India yr honn yssyd dir o vywn y hynny. Yno y dynyon a oedynt yn ymborth ar y frwyth a elwir datys. Odyna hyt y Mor Mawr y deuthum, [239] a

Ffordd y Brawd Odrig

hyt y dinas mawr a elwir Ormes. Ynghylch hwnnw y mae y gaer oreu a chadarnaf, a llawer o varsiandaeth yssyd yndi. Yn y dinas hwnnw, kymeint yw tragwres yr heul ac yd ymystyn keilleu y gwyr hyt grotheu y hesgeired. Ac am hynny, a vynno yno bot yn vyw, reit yw ydaw y iraw a'r ryw ireit yssyd ga[n]tunt wy, ac ymywn kydeu y rwymyaw am eu harch, neu wynteu a vont veirw.

[IV. HANES MERTHYRU'R BRODYR YN YR INDIA.]

Odyna mi a deuthum y'r dinas a elwir Tana, yn yr honn y merthyrwyt petwyr o'm kyt vrodyr i. A'r dinas hwnnw a deryw y adeilyat yn da, ac amylder o ymborth yssyd yndaw. Hwnnw gynt oed brif dinas Porenrawc, yr hwnn a ryuelawd yn erbyn Alexander Mawr.

Pobyl y lle hwnnw a adolant eu duweu, a Sarasinyeit a'e med, ac yssyd y dan vrenhinyaeth Daldali. Yno y mae amryuaelyon anifelyeit, nyt amgen, llewot duon yn amyl, ac abeu a gan, a maenones, a nocue, a llygot mawr, y rei y byd kwn yn eu daly kan ny leuys cath arnunt. Byham (Calasu) venture, dare

Merthyrolyaeth eissoes vy mrodyr a damhweinyawd yn y mod hwnn :—[240].

Pan yttoedynt y dywededigyon yn Ormes yn mynnu mynet y'r lle a elwir Polwmbrawm, wynt a delyit ac a ducpwynt hyt yn dinas Tana, y lle y mae bychydic o Gristynogyon, y rei a oedynt anghywir yn eu fyd. Yn ty vn o[r] rei hynny y damhweinyawd udunt llettyaw nosweith, a'r nos honno y damhweinyawd y wr y ty vaedu y wreic, ac idi hitheu dran-noeth vynet y gwynaw wrth Cadi, sef oed hwnnw, esgob.

Ac ynteu a ouynnawd idi a allei hi broui hynny yn wir, a hitheu a dywawt y gallei. "Kany", heb hi, "yd oed [petwar] o wyr creuydus o Ffreink yn y ty; gouynner udunt wy, ac wynt a dywedant y wirioned". Ac yna, vn o honunt o Alexandria a adolygawd y'r esgob anuon yn eu hol, gan dywedut eu bot yn wyr doethon, ac yn gwybot yr holl

Ffordd y Brawd Odrig

ysgrith[ur] lan. "Ac am hynny", heb ef, "da yw ymbroui ac wynt o'r ffyd".

Yna ar vrys wynt a ducpwynt rac bron yr esgob, y rei a oedynt eu henweu, y Brawd Thomas de Tholomeno Marchia, y Brawd Jacob de Padua, a'r Brawd Temetric Lleyc, a'r Brawd Bedyr de Seni. Y rei hynny a doethant at¹ Cadi, yr hwnn a dywawt wrthunt pan yw dyn oed Grist ac nat Duw.

Yna y Brawd Thomas a atte[241A]bawd dan dangos drwy llawer o exampleu a gwirionedd, ac a dywawt pan yw gwir Duw a gwir dyn oed Grist. Ac yna siomgaru a chywelydyaw a oruc Kadi a'e gydymeithon. A phan y gweles yn orchuygedic gan diruawr lit, gouyn a oruc, "Beth a dywedy di", heb ef, "am Vahumet?" Y Brawd Thomas yna a dywawt, "Nyni a brouassam y[th]²wyd di, trwy wirionedd, bot Crist yn wir Duw ac yn wir dyn, yr hwnn a ossodes kyf[i]awn gyfreith ym mysc y bobyl. Mahumet, ynteu, a doeth y ossot ffals gyfreith yngwrthwyneb y wirionedd. A phet vebut doeth di, ti a adnabydud beth a dylut y dywedud amdanaw [ef]".

Yna Kadi a'r Sarasinyeit ereill o vn llef a dywedassant, "A thitheu, etto, beth a dywedy di am Vahumet?" Y Brawd Thomas a dywawt, "Kans mynnwch yn gyhoedawc eglur ym y dywedud, mi a'e dywedaf. Ych Mahumet chwi, mab y kyfyrgoll yw, ac yn uffern y gyt a'e dat, y mae ef yn diawl! A phawb a[r] yssyd yn kynnal y gyf[re]ith ef, yno y bydant, kans enwir y[nt] yn erbyn Duw a iechyt yr encideu!"

Pan gogleu y Sarasinyeit hynny, o vn llef y dywedassant, "[Lladher], lladher ef", heb wynt, "kans dywawt . . . yn erbyn y Proffwynt". Yna y rwymassant [241 B.] wy y brodyr, ac y gossodassant wy [i seuyll] yngwres yr heul, megys y llos[git wy], kans kymcint yw gwres yr heu[ul ac na] safei wr enkylt y kenit vn effer[en heb] varw. Y brodyr hynn eissoes a v[uant yn se]uyll o'r dryded awr hyt ar y na[wuet yn y] mod hwnnw yn moli Duw yn wa[stat. Pan] weles y Sarasinyeit hynny, [ryuedu] a orug[ant a] dywedud, "Nyni a wnawn

¹ Llsq. ac. ² Llsq. yd.

Ffordd y Brand Odrig

tanll[wyth ac] a'ch bwrywn chwi yn y tan. Ac os k[ystal] awch ffyd chwi ac y dywedwch, nyt [argy]weda arnawch. Os ych llosgi chwit[heu a] wna, amlwc yw na thal awch ffyd ch[with]eu dim”.

Y brodyr a attebassant, “Par[awt] ym ni”, heb wynt, “y diodef yr Crist, tan [a ch]archar, a rwymeu, a phob ryw boen yn y [byt]. Hynn, amgen, a dylywch chwi y wybot :— [Ot] argyweda y tan arnam, nat yttiwy hyn[ny] o achaws yn ffyd ni, namyn o achaws yn pechawt. Kans kyn berffeidet a chyn g[y]wired yw yn fyd ni ac hyt nat oes yn yr holl vyt ffyd na chyfreith y iachau eneideu, namyn yr einym ni”.

Tra yttoedynt wy yn ordinhau ac yn kyweiriaw y tan y losgi y brodyr, kynnwryf a son a gyuodes yn [242 A.] [yr holl dinas]. Dyuot a orugant yno, gwyr a [gwraged ie]ueing a hen y edrych y weledi[gaeth. Yna], petwar Sarasin a gymerasant [y Brawt Jacob]b ac a'e bwryassant yn y tan, a chy[meint oed] flam o'r tan ac na allei neb y we[let, dieit]hwr y glybot yn ymoralw a Duw [a'r ogon]edus Veir Wry.

Fflam y tan eisso[es a di]ffrwythawd, a'r Brawt Jacob a oed [yn seuy]ll ar y marwar tanllyt yn dia[r]gy[wed ac yn] llawen, a'e dwilyaw yn groes a'e ly[geit ar] y nef, yn moli ac yn adoli Duw am [y amd]iffyn drwy y fyd, mor eglur a hynny, [am n]at ymdangosses, chweith, llwgyr ar [y sa]nt, [n]ac ar vlewyn o'e wallt, nac ar ed[eu o'e] dillat, yr tan. A phan weles y bobyl [enw]ir hynny, y dywedassant yn vn eir, “[Sei]nt ynt, seint; kamwed yw eu kodi. Ac [yr] awrhonn ni a welwn vot eu fyd wynt [yn] da, ac yn gatholic”. Yna Kadi a dywawt . . . oc y lef, “Na sant hwenn, yn wir”, heb ef, “[di]eithyr y beis yssyd amdanaw o wlan du [a] barhawd. Ac am hynny, noethwch ef o honn a bwryer yn¹ y tan, a chwi a welwch beth a wnel, ae llosgi ae peidyaw”.

Yna y Sarasin[242 B.]yeit enwir ffeils, o arch Kadi, a wnaethant gynneu oed vwy no'r vn gynt, a chymryt y Brawt Jacob, ac iraw y gorff ac olew, a'e vwrw yn y tan, gan dasfu olew yn amyl ymplith y kynnut; y Brawt Thomas a'r Brawt

¹ Llsgr. yr.

Ffordd y Brawd Odrig

Tremetric, odieithyr y bobyl, yn gwediaw Duw, ar benn eu glinyeu. Y Brawd Jacob, yr eilweith, a aeth o'r tan yn diargywed. Yna, y bobyl, pan welsant hynny, a dywedasant, "Pechawt yw eu molestu, kans seint ynt".

Hynn, pan y gweles Melic, pennadur y dinas, galw a oruc attaw y Brawd Jacob, a pheri ydaw wisgaw y dillat, a dywedut, "A welwch chwi vrodyr! Ewch odymma o blegyt Duw; kany cheffwch dim o argywed o'n plegyt ni rac llaw. Ac yd ym yn gwelet awch bot yn seint, a'ch fyd yssyd da; ac am hynny, wyr da, kynghor yw gennyf ywch adaw y tir hwnn ar vrys, kans y mae¹ Kadi o'e holl ynni yn keisyaw awch dinustyr". Yna Melic a beris eu harwein ell tri dros vreich o'r mor y dinas arall; ac yno ymywn ty geu duw y lletyassant.

Yna Kadi a doeth att [243] Melic, ac a dywawt wrthaw, "Beth a wnawn ni?" heb ef. "Neur distrywywyt kyfreith Vahumet, ony cheir nerth; kans y Freink hynn a ant trwy yr holl wlat honn y bregethu; a phawb a drossant attunt, a'n kyfreith ninheu a dileir. A gwybyd di y Vahumet genhatau kymeint o vadeuant y'r neb a ladei vn o'r Cristynogyon, a phei gouwyei y ved ef ym Mecha". Sef oed y lle hwnnw, y vedrawt ef; yr honn y mae y Sarasinyeit yn y gouwyaw ac yn y hadoli, megys y mae y Cristynogyon am ved Crist. Yna Melic a dywawt, "Dos ditheu, a gwna ual y mynych ac wynt".

Yna Kadi a gymherth [pet]wargwyr y gyt ac ef yn aruawc o'e keissaw [ac] eu llad. A chyn eu dyuot drwod, disgyn a oruc nos arnunt, ac am hynny, ny chaffat hwy. Yna Kadi a beris daly y meint Cristinogyon a oed yn y dinas hwnnw, ac eu rodi yngharchar.

Am hanner nos, ynteu, y brodyr a gychwynnassant y dywedut eu plygein, ac [244] yna y Sarasinyeit a deuthant am eu penn, ac a'e rwymassant, gan eu harwein y maes o'r dinas y dan vric pren a dywedut wrthunt, "Ha, vrodyr, chwi a wdawch bot arch arnam ni gan Gadi a Melic, ywch llad chwi; yr hynn yssyd wrthwyneb gennym; kans gwyr da

¹ Llsg. *ymma*.

Cenllysg hailstones, hail
Soddi to sink, plunge, submerge.

arweddu to bear, wield, lead

Ffordd y Brand Odrig

santeid ywch. Ac os gwrthwynebu y'w harch hwy a wnawn ni, ef a'n dinustrir, a(n) ni a'n gwraged a'n etiuedyon". Y brodyr yna a atebassant, "A gedymeithyon", heb wynt, "gwnewch awch ewyllus; kans teilwng yw, trwy angheu amserawl, ennill buched tragwydawl. Ac er karyat ar Duw, a chynnal yn fyd ninheu, parawt ym ni y diodef poeneu ac angheu yn vuyd". = ufydd

Yna, y Sarasinyeit aruawc a yspeilyassant y brodyr oc eu dillat, a rwymyaw eu dwylyaw, a llad eu penneu yn verthyri kywir. Yn awr merthyrolyaeth y brodyr, kyn egluret oed yr awyr ac yr oed bawb yn ryuedu. Ac yn [y] lle, ryw dywyllwch o ystorum a tharaneu a [245] (a) mellit a chenllyst a disgynnawd, megys y tybyassai bawb yn dirybud y bydynt veirw. A'r ysgraf yn yr honn yr oed y Sarasinyeit yn hwylyaw adref parth a Pholwmbwrwm, yn y lle a sodes, ac y bodassant wynteu.

Y boreu drannoeth yd erchis Kadi geissyaw y petwryrd brawt, ac y kawssant y Brawt Bedyr, ac y harwedassant geir [bronn] Kadi; ac ynteu a'r Sarasinyeit ereill a geissassant gantaw wrthot y fyd a chredu y Vahumet. Ac ynteu a wrthodawd hynny, ac wynteu a'e rwymassant ef, gan y grogi o'r nawuet awr hyt yn yttoed yn nos. Ac yna yd oed y brawt yn diargywed; a phan welsant hwy hynny, wynt a'e tynnassant ef y'r llawr ac a'e torrassant yn deu hanner.

[V. Y GWYRTHIAU WEDI'R MERTHYRU.]

Er eil dyd wedy merthyrolyaeth y brodyr, pan ytoed Melic yn kysgu, yd ymdangosses y brodyr vchot idaw yn disgleiryaw mal yr heul, a chledyfeu yn y dwylyaw yn y vegythaw ef, mal ar vedyr y drawanu trwydyaw. Ac o diruawr ofyn, diffroi a oruc a dywedut wrth y dylwyth, "Y Ffreink a bereis i doe eu llad, a doethant am vy penn a chledyfeu [246] noethon y gantunt y geissyaw vy llad".

Yna, ar vrys, Melic a yrrawd yn hol Kadi, y ymgynghori ac ef, beth a wnelei; kans pryder a oed arnaw yd ae

ship boat
(cf scapha?)

= gave up

"statim"

Ffordd y Brawd Odrig

ynghyfyrgoll o eu hachaws. Yna Kadi a gynghorawd idaw rodi kardodeu a gwneuthur allussenneu rac y heneidyeu. Ac ynteu a beris gollwng y Cristinogyon o'r karchar ymhob lle yn y kyuoeth gan erchi udunt vadeuant; a gossot yn y gyureith, pwy bynnac a argywedei y Gristynogyon, y vot yn golledic o vywyt. Ac velly y gollyngwynt wynt yn ryd. A thros y petwar brawt uhot y gwnaeth pedeir manachlawc, ac yndunt ordinhau effeiryteit o Sarassinyeit.

Pan gogleu amherawdyr Bodoli hynny, anuon a oruc yn ol Melic ac erchi dyuot ac ef yn rwym attaw, a phan y gweles y dywawt wrthaw, "Paham y gwnaut ti mor greulawn a llad y brodyr?" Ynteu a atebawd, "Am eu bot yn keissyaw [dinustyr] yn kyfreith ni ac yn gwatwaru y Proffwynt Mahumet". Yna yr amherawdyr a dywawt, "Oia gi creulawn! Pan weleist di Duw yn eu diffryt wynt rac¹ y tan, paham y bydut ti mor eofyn gwedy hynny a'e llad wynt?" A'r amher[247]awdyr yna a rodes barn am Melic a'e holl dylwyth y eu llad. Kadi pan glybu hynny a gilyawd.

Ac aruer y wlat hynno yw na rodher y kyrff meirw mywn bedrawt namyn eu gossot yngwres yr heul, ac yno ar vrys y daruydant. Kyrff y brodyr uhot a vuant dec diwarnot ar ugeint yngwres yr heul, ac er hynny, kyn iret oedynt a'r dyd kyntaf. A phan welsant y Cristynogyon hynny, wynt a'e cladassant yn enrydedus.

Minheu, y Brawd Odric, pan goglef hynny, a deuthym yno, ac a datgledeis [y] bedeu, ac a dugym eu hesgyrn y'r India Uchaf, y dy yn brodyr ni a oed yno, ac vn kedymeith y gyt a mi a gwas. Ac ar y ford y lletyassam mywn llety kyffredin, a'r nos honno y gossodeis i yr esgyrn dan vym penn. A'r Sarasinyeit a losgassant y ty am vym penn vi a'm kedymeithyon; a'm kedymeith inheu a'r gwas a foassant allan a'm gadaw inheu vy hun yn y ty y gyt a'r esgyrn. A phan dyffroeis, mi a gilyeis y gongyl o'r ty, a'r ty oll a losges dieithyr hynny; a phan euthum odyno ef a losges oll.

¹ Llsg. ran.

Ffordd y Brand Odrig

Ac odynd ni a gawssam long y vynet parth a'r India Uchaf, y'r dinas a elwit Cathan, yn y lle y mae [deu dy y'n brodyr ni, ac yno y damunem ossot y creireu hynny.]

[VI. DEFODAU TRIGOLION MOBAR A LAMWRI.]

[Geyr llaw eglwys y duw hwnnw y mae llynn gwedy y gwneuthur y mywn lle amlwc, yn yr honn y bwryant y pererinyon eur ac aryant a mein gwerthuawr yr enryded y'w duw, ac yr adeilyat y eglwys. Ac velly, pan vo reit y'r dynyon ae adurnaw ae kyweiryaw ryw rann ohenei, wynt a ant y'r llynn honn ac a dynnant y maes ohenei y petheu a vwryassit yndi. Dieithyr ynghyueir y dyd y gwnathoedit y delw honno, y brenhin a'r vrenhines y gyt a'r holl bobyl a'r pererinyon a deuant att y duw] [248] ac y kymerant ef ac y dodant mywn kart eureit, ac y tynnant o'r eglwys gan diruawr gerdeu tant a thauawt, a morynyon, bob dwy, yn kanu yn y blayn.

A'r pererinyon a ant dan y kart gan vynnu mynet eu duw drostunt; a phawb o'r y kyhyrdo y kart ac wynt, [ef] a'e llad, ac velly y mynnant hwy y meirw er duw. Ac velly y lledir yn y ford honno ohonunt mwy no phump kant, a'e kyrff a losgir a'r lludw¹ a getwir yn lle creireu.

Aruer arall yssyd gantunt; pan vynno vn ohonunt varw yr enryded y'w duw, galw a wna ar y holl gedymdeithon a'e genedyl, a gwahawd y gler a gwneuth[ur] gwled vawr. A gwedy y wled dyuot a wnant, a chymryt pump kyllell awchlym, ac eu rodi am y vynwgyl, a'e arwein geyr bronny y duw. A phan del yno, y kymher vn o'r kyllleill yn y law ac y dyweit o'e lawn llef, "Yr karyat ar vyn duw y torraf i vyng kic". Ac y kymher yr hynn a dorro ac y bwrw yn wyneb y geu duw; ac velly y dryllya ef y gnawt, ac yn y diwed pan ymleasso y dyweit, "Marw yr vyn duw a vyn[249]naf i". A phan deruyno, y gorff a losgir; a sant y credant hwy vot hwnnw.

¹ Llsg. *lludw*.

Suggestion

Ffordd y Brawd Odrig

Brenhin y wlat honno yssyd verthogach o eur ac aryant noc arall o'r byt; ac yno y mae y margaritis teckaf o'r holl vyt.

Odyno y kerdeis i geyr Mor y Gorllewin y tu a'r deheu dec siwrnei a deugeint, y'r tir a elwir Lamwri. Yno y gwyr a'r gwraged o dragwres yr heul yn noethyon o gwbyl y kerdant. A phan welsant hwy vyvi yn wisgawc, enryuedu a wnaethant, a'm kel[l]weiryaw, a dywedut y Duw wneuthur Adaf ac Eua yn noethyon.

Yn y wlat honno, y gwraged a vydant gyffredin megys na dyweit vn 'vyngwreic i' na 'm gwr inheu'. A'r plant a dygant y'r mwyaf a garont o'r gwyr a vo udunt. A'e tir yssyd gyffredin, heb y neb geissyaw ragor ar y gilyd. Eissoes tei yssyd udunt yn wahanredawl. *domos tamen habent speciales*

Yno y bwytaant hwy kic dynyon breissyon, megys ninheu gic gwartheg a moch. Ac yr bot y bobyl yn anifeilyeid ac yn ysgymun velly, y tir eissoes yssyd da a frwythlawn, bydawl [250] a chic yn amyl, ac eur ac aryant a choedyd frwythlawn o'r frwyth a elwir a'loi a gariofwm.

Marsiandwyr a delont y'r wlat honno a arwedant ganthunt dynyon breisson ac a'e gwerthant [y bobyl y wlat], megys ninheu y moch; y rei a ladant wy ar vrys, ac a'e hyssant.

Yn y tir hwnnw y mae brenhinyaeth y tu a'r deheu, yr honn a elwir Sumilta; yn yr honn y nodant y gwyr a'r gwraged yn eu hwynebeu. Ac yn eu deudeng mlwyd, y rei hynny a ymladant yn noeth a phawb.

[VII. JAUA, PANTON A'U RHYFEDDODAU.]

Odyna mi a gerdeis y vrenhinyaeth arall, y ynys a elwit Jaua, yr honn yw y hamgylch gan ystlys y mor, teir mil o villtiroed. Brenhin yr ynys honno yssyd gyuoethawc, a seith brenhin coronawc y danaw ynteu. Y tir yssyd da a chyuannd; a'r eil ynys oreu o'r holl vyt yw. Yn honno y mae amylder o frwytheu, y rei a elwir gariaph cubibe a chneu a phob amryuael frwyth, ac amylder o ymborth a diodyd dieithyr gwin.

Besides

toes dough pler = pylor dust, powder (L. pulver)
* menne to impress, mark, effect (*leg. men(n)a)

Ffordd y Brand Odrig

Llys yssyd y'r brenhin hwnnw, y deckaf o'r a welais i eryoet, a'r gyuoethockaf o eur ac aryant a mein rinwedawl gwerthuawr, [251] gwedy y thoi oll oc eur pur. Y rwng y brenhin hwnnw a brenhin mawr arall, a elwir Camis de Cattay, y byd mynych ryuel, heb dygyaw ydaw dim.

Geyr llaw yr ynys honno, y mae gwlat a elwir Panton. Brenhin y wlat honno bieu llawer o ynyssoed. Yn y wlat honno y mae preneu yn rodi blawt, mel, ac olew, a gwin, a gwenwyn periglus, yr hwnn nyt oes waret yn y erbyn dieithyr vn; a hwnnw yw, kymryt baw dyn, a'e ardymheru yn docnus, a'e yuet, ac yn gytneit kilyaw a wna y gwenwyn a mynet y waeret trwydaw. = on unwaith

Gwyd y wlat honno a rodant vlawt ohonunt¹ yn y mod hwnn. Pan dorrer vn o honunt geyr y daear, y tard ryw licor ohanaw megys gwm, a hwnnw a gynullant mywn llestri. Ac odynd mywn codeu o deil y dodant yn yr heul, ac y gadant velly bymthec diwarnawt; ac erbyn hynny, ef a a yn vlawt. Ac odynd y kymerant ef, ac y golchant mywn dwfyr² hallt, ac odynd yn y dwfyr gwyr; ac y gwnant does da safwreid ohanaw; ac y crassant yn vara; o'r hwnn y lleweis i vyn dogyn. Bara tec vydei o'r tu vaes idaw, a gwineu o'r tu vwyn. "brown" (wiger)

Yn y [252] wlat honno y mae mor marw, yr hwnn y mae y gwrs y tu a'r deheu; yr hwnn o syrth dyn yndaw, ny welir mwy vyth ohanaw. Yn y wlat honno y keffir kyrs mwy eu hyt no thrugein cam, yn tyuu y vyny megys preneu mawr. A chyrs ereill a geffir yno, a elwir cassan, a dyfant ar hyt y daear o hyt milldir o dir; yn y rei y keffir mein, y rei, pwy bynnac a'e dycko ganthaw vn ohonunt, ny medna^{*} hacarn arnaw. A gwyr y wlat honno yn gyffredin a dygant . . . A gwyr y wlat honno a dorrant³ ar vreicheu eu meibyon, ac a rodant o'r mein hynny yn y brath, ac o blor ryw bysc, ny wnn y enw euo, y parant y'r brath iachau a chau ar y maen yndaw. Ac o rinwedeu y mein y goruydant hwy yn y

¹ Llsg. ohonunt. ² Llsg. dyfwr. ³ Llsg. a dygant wedi ei ddileu o flaen hyn.

< doqn

sago?

pulcher

recods, caves

= bamboc

Ffordd y Brawd Odrig

brwydreu a'r ymladeu, kanys ny ellir argyweddu udunt ac arueu heyrn.

taes Sef a wna y bobyl a atwen gwyrtheu y mein, gwisgaw arueu gwenwynic amdanunt o wenwyn y koet ucho, a chymryt trossolyn blaenllymyon yn eu dwylyaw, ac a'r rei hynny yn wenwynic eu brathu, ac eu saethu a phelydyr heb penneu arnunt, ac uelly eu molestu ac [eu] llad. Ac o'r kyrs hynny y gwnant wy h[wyleu] [253] y eu llongeu, a thei udunt ac amryuaelyon reideu ereill.

[VIII. CAMPA A'R PYSGOD RHYFEDD.]

Odyna mi a gerdeis y vrenhinyaeth arall a elwit Campa, y deckaf a'r frwythlonaf. Brenhin y wlat honno, pan vum i yno, a oed idaw o wraged kymeint ac yd oed ydaw trychant o veibyon a merchet. Y brenhin hwnnw yd oed ydaw na[w] mil o eliphanyeit dof, y rei a barei ef eu kad[w] megys preid o warthec.

Yn y mor yno y mae amylder o bysgawt, megys ar dogyn mawr ohanaw na welir dim dieithyr kefnau y pysgawt; ac o'r mor y neittyant y'r tir sych y'r lann. A hynny tri diwarnawt y tric pob ryw bysgawt yno velly, ac y dichawn pobyl y wlat gymryt a vynnont ohonunt; ac odyna yd enkilyant; a hynny a wnant vnweith bob blwydyn.

A mi a ouynneis y'r bobyl yno pahan oed hynny, ac wynteu a dywedassant mae dyuot a wneynt wy velly y enrydedu eu amherawdyr hwy; a'r ateb hwnnw a gredaf i y vot yn gelwyd. A chredu yr wyf mae o¹ anyan y tir a'r mor yno, y gwnant hwy velly.

noils Yno y mae molwet diruawr eu meint, a llawer o enryuedodeu a weleis i (yno) yn y wlat [254] honno. Yno y llosgir y gwr pan vo marw a'e wreic yn vyw y gyt ac ef, *|| suttee* megys y dywetpwynt am y wlat o'r blaen; a dywedut a wnant yd a y gyt ac ef y'r byt arall rac ydaw gymryt gwreic yno dieithyr hi.

¹ Llsg. a.

Ffordd y Brawd Odrig

[IX. YNYS MACHIMORAN.]

Odyna mi a gerdeis geyr Mor y Gorllewin hyt parth a hanner dyd, trwy lawer o wledyd ac ynyssoed. Ac ynys a elwir Machimoran, yr honn yw y hamgylch, dwy vil o vill-tiroed. Yn y wlat honno y mae gwyr a gwraged tec, ac ych a adolant yn lle duw udunt, a delw ych a dygant yn eu talken; ac yn noeth y kerdant dieithyr vn kedydyn llicin ar eu kyweilyd.

Y gwyr mwyaf a chryuaf ynt; a phan elont y vrwydyr, taryaneu o heyrn a dygant ar eu hysgwydeu; y rei a feicko o warthaf eu penneu hyt eu traet. A'r rei a delont mywn brwydreu yn eu herbyn, ony byd ganthunt allu y ymbrynu ac wynt, y llad a wnant ac eu bwyta.

Y brenhin hwy a dwc trychant margarit am y vynwgyl, o rei mwyaf a theckaf, ac a dyweit y geniuer gwedi y'w duw; ac a dwc ar y law maen o hyt rychwant, a thra vo [255] hwinnw ganthaw, ef a welir megys post o dan. Ac am hynny, ny beid neb wasgu yn y gyuyll, ac ef a dywedir nat oes yn yr holl vyt vaen vnwerth ac ef. Yr amherawdyr mawr o Tartari a Chamis de Cattai, ny allant nac ar werth nac yn neb ryw vod y gaffel.

[X. YNYS SILAN.]

Odyna mi a gerdeis y ynys a elwir Silan, yr honn yw y hamgylch mwy no dwy vil o villtired; yn yr honn y mae amylder o nadred a llewot a seirff ac eliphanyet ac amryuael-yon anifeilyeit ereill. Yn y wlat honno y mae mynyd mawr, ar yr hwinn y dywedant wy y Adaf gwynaw Abel y vab gant mlyned. Ar genawl y mynyd hwinnw y mae gwastattir a nant redegawc¹; a phobyl y wlat a dywedant pan yw o dagreu Adaf ac Eva yd henyw y dwfyr hwinnw. A hynny a amheueis i, kans mi a weleis y dwfyr yn redec.

¹ Llsg. *rege dawc*.

< gelnot < gelennot pl. of gelan 'leech'

Ffordd y Brawd Odrig

A llawn yw y nant o elnot a gwennolot a mein gwerthuawr. O'r mein hynny ny chymer y brenhin namyn vnweith [neu dwy yn] y vlwy[256]dyn ydaw ehun; dieithyr gadu y dlodyon eu kynnull, a gwediaw dros y eneit ynteu. Ac megys y gallont vynet dan y dwfyr y eu kynnull, wynt a irant eu knawt a ryw iryeit yssyd gantunt wy rac gelnot. Ac yn noethon y'r dwfyr yd ant, a'r¹ nant hwnnw a gyrch y'r mor, ac yndaw y keffir mein rubi, adamantes, a margarit, a gemmeu ereill gwerthuawr.

A mwyaf brenhin yw hwnnw o'r holl vyt y allu. Yn y wlat honno y mae pob ryw natur o anifeilyeit ac adar. A gwyr y wlat a dywedant nat argywedant yr anifeilyeit y neb o dieithyr, namyn y wyr y wlat ehun. Yn y wlat honno y gweleis i adar megys keilawc gwydeu, a deu benn arnunt, ac amryuaelyon betheu ryued, y rei nys ysgriuennaf yn awr, a weleis i yno. = oylloeth

[XI. YNYS BODIN.]

Odyna mi a gerdeis y tu a'r deheu y ynys a elwit Bodin. Yn honno y mae y dnyon gwaethaf, y rei a ymborthant ar gic of, a phob peth dybryt o'r a ellit y vedylyaw, wynt a'e gwnant. Kans y tat a ys y mab, a'r mab y tat; y gwr y wreic; y wreic y gwr. A hynn heuyt a wnant. Or kleuychu [257] y tat, y mab a a at yr offeiryat y'r synagoc, ac adolwyn ydaw ymouyn a'e duw beth a deruyd am y dat o'e gleuyt. Yna wynt ell deu a ant att y geu duw, yr hwnn yssyd o eur oll, ac a wnant eu gwedi yn y mod hwnn, "Arglwyd, tydi yw yn duw ni; ti a adolwn, a thi a wediwn ar yt atteb ynni a uyd byw hwnn"—gan y enwi—"neu a uyd marw ynteu".

Yna y kythreul a atteb udunt; ac or dyweit y byd byw, y mab a'e gwassanaetha yny vo iach. Or dyweit ynteu y byd marw, yr offeiryat a daw att y claf, a rodi tudedyn llicin a wna

¹ Llsg. ac.

Ffordd y Brawd Odrig

ar [y] eneu, ac velly y dagu. A phan vo marw, y torrann y gorff yn drylleu man, a gwahawd y holl genedyl a'e gedym-eithon a wnant a'e vwyta gan ganwryaeth a llewenyd mawr. A gwedy hynny y esgyrn a gladant yn enrydedus, a dywedut pan yw hynn¹ yw yr achos :—rac y bryfet vwyta y gic, kans diruawr boen vydei hynny y'r eneit. Ac o'r geueilorn honno ny elleis i eu tynnu wynt.

precisimol
Llawer o betheu enryued a weleis i yno, y rei, onyt a vei gyndrychawl, nys credei neb. Hynn, amgen, geyr bron Duw, a dywedaf i y welet, megys y dich[258]awn kyndrych-olyaeth y dystolaethu. Pawb yno a dywawt wrthyf i vot y dan yr India hon [vwy] no vgein mil o ynyssoed yn y² rei y maent trugeint brenhin coronawc, a dywedut vot kanmwyaf y tir hynny y[n] gyuanned.

[XII. YR INDIA UCHAF—MANSI.]

O'r India Uchaf bellach y dywedaf i. Yn gyntaf, pan gerdeis [i] geyr Mor y Gorllewin parth a'r dwyrein, mi a deuthum y wlat a elwit Mansi, yr honn a eilw y Lladinwyr India. Am yr India Uchaf honn, mi a ouynneis y'r Sarasinyeit ac y'r Cristinogyon ac y holl swydogyon yr Arglwyd Kan, y rei a dywedassant y mi vot yn y wlat honno, Mansi, mwy no dwy uil o brif dinessyd. Yn honno y mae amylder o ymborth. Gwyr y wlat honno ynt grefftwyr a marsiawndwyr ac aduwyn o gyrff dieithyr glasliwyawc ynt, ac eu barueu gwedy eu heillyaw. Y gwraged teckaf o'r holl vyt yssyd yno.

Y dinas kyntaf o'r India, yr hwnn y deuthum i ydaw, a elwir Soncalon, siwrnei vn diwarnot y wrth y mor a'r auon, yr honn o anyan y mor a ysgyn ar y tir dec siwrnei ar ugeint. Pobyl yr India honn oll a adolant eu duweu. Yn y dinas uchot y mae o longeu kymeint ac y mae anawd y gredu, onyt a'e gwelei. Yno y maent amryua[259]elyon adar gwyllt a dof, keilyogeu hwyteit, a icir mawr kymeint a deu lwdyn

ducks, wild geese
¹ Llsg. *hynn*. ² Llsg. *yr*.

Ffordd y Brwd Odrig

yn gwlat ni. Yno y delyir nadred ac y bwyteir, ac ny bernir yno yn wled ony cheffir nadred o'e bwyta.

Odyna mi a deuthum trwy lawer o dinessyd yny deuthum y dinas a elwit Saitan, yn yr hwnn y mae deu dy y'r Brodyr Troetnoeth; ac y'r tei hynny y dugum i rei o esgyrn yn brodyr ni. Dinas mawr yw hwnnw, ac amylder o ymborth a newidyeu da yndaw. Yno y bum, ac ef a dywetpwynt ym vot yno deir mil o greuydwyr, a dwy uil o eu duweu a oed udunt, kymeint y lleiaf ohonunt a'n Cristoffyr ni.

A dydgweith y gweleis i wy yn porthi eu duweu. Dwyn a wneynt vwydeu twym rac bronn y geu duw, a gollwng y mwc yn y gylch, a dywedut wrthaw mae hwnnw oed y vwyt. A gwedy hynny wynteu a gymerynt y bwynt hwnnw udunt ehunein; ac velly beunydynt y porthynt wy eu duweu.

Odyna y tu a'r dwyrein y kerdeis y'r dinas a elwir Fuco, yr hwnn yw y gylch [260] dec milltir ar ugeint; yn yr hwnn y mae k[eilo]geu mawr tec a icir gwynnyon; a megir gwlan yn lle pluf arnunt. Y dinas hwnn[w] a deryw y adeilyat yn arderchawc ar y mor.

[XIII. Y MYNYDD MAWR A DINAS KANASIA.]

Odyna mi a gerdeis dec siwrnei trwy lawer o dinessyd yny deuthum y vynydd mawr. Ac o'r neill hanner y[r] mynydd, yr holl anifeilyeit a oedynt kyn duet a'r glo; a[r] gwyr a'r gwraged yn wahanredawl y buchedokaant. Ac o'r hanner arall, yr holl anifeilyeit a oed kyn wynnet a'r eiry, a'r bobyl megys y rei ereill. Yno y gwraged a veynt wryawc, yn arwyd priodas, a arwedant ryw arwyd o gorn ar eu penneu.

Odyna mi a deuthum y dinas a elwir Kanasia, yr hwnn y'n tauawt ni a elwir Dinas Nef. Ny weleis eiryoet y ryw dinas hwnnw. Kylch y dinas yw kant milldir, ac ny[t] oed yndaw le heb y adeilyat.

Yno y gweleis i de[i] ac vgein neu deudec ar ugeint o solereu yndunt; pob vn ohonunt ar y gilyd; ac vn porth ar ugeint o rei prinsipal ar y gaer, ac wyth milltir o bob vn

priod

Ffordd y Brawd Odrig

ohonunt y'w gilyd. A dinessyd kedyrn mawr ynt y rei hynny; ac y mae y dinas pennaf mywn dwr¹ sefydlawc [261] gordwfn. Y mae heb na llanw na threi. Eissoes tonneu a vyd arnaw gan y gwynt. Ac yn hwnnw y mae mwy no deudeng mil o bynt, y rei a rifeis i ac a gerdeis, lawer. Ac ar bob pont y mae keitweit yn gwarchadw o blegyt yr Amherawdyr Kan de Cattai.

Enryued vu gennyf veint o bobyl a oed yno o Sarassinyeit a Christynogyon a marsiantwyr. Yn hwnnw y mae amylder o ymborth. Yn y dinas hwnnw petwar o'n² brodyr ni a droassant wr grymhus y fyd Grist; ac yn ty hwnnw y bu vy lletty i tra vum yno; yr hwnn dreigylweith a dywat wrthyf, "O dat, a vynny di welet y dinas hwnn?" "Mynnaf", heb y minheu.

[XIV. Y FYNACHLOG FAWR A'R ANIFEILIAID A FUASAI'N DDYNION.]

Ni a doetham odyno y vanachlawc³ vawr, a galw a oruc ef vn a atwaenat attaw, a dywedut wrthaw amdanaf i. "Gwr creuydus yw hwnn", heb ef, "ac a doeth o'r lle dwyrein heul, a mynet a wna y Gamalech y wediaw dros yr arglwyd. Ac am hynny, dangos ydau ryw beth dieithyr ryued, megys pan del y wlat y gallo manegi y ryw beth a welo yn dinas [262] Kanasia".

Yna hwnnw a gy[mherth] deu gawell yn llawn o wedilly[on] bordeu, a mynet, vi ac ef, y borth, yr hwn a agorawd ef ac all[wed]. Yno yr oed forest vawr, y'r honn y doetham ni. Y[no] yr oed tule ar weith clochdy, a blodeu [a] llysseu tec. A phan yttoedem ni velly, ef a gymherth cloch ac a'e canawd. Ac ar hynny, nachaf lawer o amryuaelyon anifeilyeit yn dyuot o'r mynyd hwnnw—rei ar lun abeu, ereill megys maranones, ac ereill ac wynebeu dynyon udunt. Ac ymgynnull yn y cylch a wnaethant mal amkan

¹ Llsg. *twr.* ² Llsg. *om.* ³ Llsg. *vanadlawc.*

+ 'repletos reliquiis quae supererant de mensa'

Ffordd y Brwd Odrig

teir mil; a phob anifeilyeit a ossodes yn y grad, a gossot dysgleu geyr eu bronn a rodi y bwynt udunt. A gwedy udunt vwyta, eilweith canu y gloch a oruc; a phob un ohonunt a gyrchawd y artal.

Ac yna ryuedu a wneuthum inheu hynny, a gouyn idaw ansawd yr anifeilyeit. Ynteu a dywawt, "Eneideu gwyrda yr ym ni yn eu porthi val hynn", heb ef, "a chereint ac annwlyeit y Duw, yr hwenn yssyd yn llywyaw y byt. Ac megys [263] y buant wy yn buchedockau yman ac yn urdas-seid ac yn amgen vod, uelly gwedy eu meirw, eu heneideu a ant y mywn y kyfryw anifeilyeit a wely di; os urdas-seid, y mywn anifeil urdas-seid; os amgen, megys taogeu a'r kyfryw hynny, mywn anifeil anurdasseid, megys ab neu y kyfryw hynny".

Yr anwybodolyaeth honno a veicis i yn vawr; eissoes ny allwn i eu hysgoc wynt y ar eu hangret y gallei eneideu vot heb gyrff.

[XV. AMRYFAL DDINASOEDD CATTAL.]

Odyno y deuthum i y'r dinas a elwir Chilempho, yr hwenn gylch ogyrch y mur [yssyd] deugein milltir; yn yr hwenn y mae trugein a thrychant o bynt o'r mein teckaf o'r a welais ermoet. Y dinas hwnnw a deryw y adeilyat yn oreu ac y gellit, a llawer o longheu yssyd wrthaw, ac amylder o ymborth.

Odyna y kerdeis i hyt y mor a elwir Talai, yn yr hwenn y mae seith milltir o let; yr hwenn yssyd yn kyrchu trwy wlat y correit [neu]¹ bigmei. A'e dinas a elwir Caban—y deckaf o dinassoed y byt. Hyt y pigmei oed teir rychwant ymi; ac wynt a wnant y gweith goreu a mwyaf ar gwtwn a sidan, a gwell no neb o arall genedlaeth o'r holl vyt.

Odyna gan ystlys y mor hwnnw, mi a deuthum y'r dinas a elwir Janzu, lle mae seith mil o'n brodyr ni. Dinas ar[264]-derchawc kyuoethawc yw hwnnw; ac o'r dinas hwnnw yr²

¹ Llsg. y. ² Llsg. ara.

Ffordd y Brawd Odrig

a auon Talai . . . Y mae dinas a elwir Montu, yr hwnn yssyd dec a llongheu wrthaw mwy noc wrth vn arall o'r a weleis i eiryoet; a gwynnyon yn oll mal eiry. Yno y mae llawer o adeil, y rei nys credei neb onyt a'e gwelei.

Odyna mi a gerdeis trwy lawer o dired a dinessyd a threuyd wyth siwrnei hyt y dinas a elwir Letyn, yr hwnn yssyd gwedy y hadeil ar auon a elwir Caran[oran], yr honn yssyd yn kyrchu trwy genawl gwlat Gattai ac yn gwneuthur diruawr drwc idi pan lifhao.

dwrtaf
Odyna mi a deuthum tu a'r dwyrein gan ystlys yr auon uchot drwy lawer o dired a dinessyd, hyt y dref a elwir Sumacoce, yn yr honn y mae mwy o amylder sidan noc y mywn dinas arall o'r holl vyt. Pan prittaf y sidan yno, ef a geffir pwys deugeint punt yn llei noc wyth grot. Ac yndi y mae amylder o ymborth a maeleryaeth. *masnach*

[XVI. DINAS KAMBELECH.]

Odyna mi a gerdeis drwy lawer o drefyd y tu a'r dwyrein nny deuthum y dinas a elwir Kambelech. Hen brif dinas yw hwnnw yngwlat Kattai. Gwyr Tartari a'e kymerth ac a wnaethant yno dinas arall a elwir Kaydo, ac yryngtuunt y mae [265] dwy villdir; ac yn hynny kyuanhed, mal y tybyir mae vn dinas ynt; ac eu kylch ogyrch yw deugeint milldir. Yn y dinas hwnnw y mae priflys a phalis yr Amherawdyr Kan, yr honn¹ yw kylch ogyrch y chaer dec milltir; yn yr honn y mae llawer o blassoed arderchawc y wyr y lys ef.

O'r tu mywn y'r palis hwnnw y mae mynyd tec plannedic o goet, o'r achaws y gelwir ef Y Mynydd Glas; yn yr hwnn y mae y palis teckaf ac urdedickaf, yn yr hwnn yn gyffredin y presswyla Arglwyd Kan. Gan ystlys y mynyd hwnnw y mae nant mawr, yn yr hwnn y mae amylder o adar dwfyrlynneu; ac yn y coet y mae amylder o adar gwyllt a bwystuilot. Am hynny, pan vo reit y'r Arglwyd Kan hely, nyt reit ydaw vynet o dieithyr y lys ehun.

¹ Llsgr. *hwnn*.

x faun peacock

llyfasu (llafasu Spurrell) to venture, attempt, presume, dare

Ffordd y Brawd Odrig

Yn y prif balis y brenhin uchot y mae arderchogrwyd mawr, nyt amgen, naw piler o eur o'r tu vywn, a muroed oll wedy y toi o'r crwyn koch bonedickaf o'r holl vyt. Ynghenawl y palis y mae maen gwerthuawr o uchder dwy rychwant [266]—a'e enw yw Merducas—gwedy y rwymyaw oll oc eur ac ym pob cornel idaw delw neidyr o eur, a'e safyn yn llet [agoret], a mein margarit yn amyl yn eu kylch, ac o'e geneueu yn gollwng y gwin yn amyl, a llestri eur wrthunt, y bawb y gymryt diodyd o'r a'e mynno.

Yn y palis hwnn y mae llawer o baunot^x o eur; a phan wnel vn o wyr Tartari lewenyd y'w arglwyd, a gwled, a churaw ohanaw y dwylaw y gyt o lewenyd, sef a wnant y paunot drychael a gorhopyan. Sef y tyby[g]af i mae o nigrom[a]wns neu o geluydyt dan y daear oed hynny.

*danisio
94/8/20*

[XVI. YR YMHERODR KAN DE CATTAL, A GWYCHDER EI LYS.]

Pan eistedo yr amherawdyr uchot yn y eistedua, y vrenhines a eisted ar y tu assw ydaw, ac o vn rad is y llaw yd heisted dwy wraged, y rei yd aruer y brenhin ohonunt pryt na bo dedyf ydaw gysgu y gyt a'e wreic ehun. Yn y(r) rad issaf yd eisted pawb o'e genedyl ef, o wyr a gwraged a a[r]uerant o dwyn ar eu penneu llun troet gwr, kyhyt a breich gwr, gwedy y gyweir[yaw a] phluf, ac a mein margarit.

left

Ar yr hanner deheu y'r Amherawdyr Kan yr eisted y vab, yr hynyf, yr hwnn a wledycho gwedy ef; ac y danaw ynteu, y rei a hanffo o'e waet. Yno [267] y byd dec ysgriuenydd yn ysgriuennu pob geir o'r a dywetto y brenhin, wrth eu kadw ar gof, a'e varwneyt yn sefuyll geyr y vronn. Ac ny leuys neb dywedut vn geir heb ouyn kennat y'r brenhin, dieithyr klerwyr a folyeit.Ⓢ Ac ar borth y palis y byd barwnyeit yn gorchadw rac dyuot neb y mywn heb wybot y negesseu.

Pa[n] wnel yr (yr) Arglwyd Kan wled, ef a vyd y gyt ac ef naw mil o varwneyt yn dwyn koroneu ac eurdyrch ac yn gwassanaethu arnaw; a phob vn ohonunt a gwisc o vrethyn

Ⓢ *exceptis factis et historiis*

Ffordd y Brawd Odrig

eur amdanaw, a mein margarit a dalo deng mil o floringot. Y llys hynn a ordinheir o swydogyon yn enrydedus, heb dim [ei]sseu—pob vn yn y swydd.

Minheu, y Brawt Odrig, a vum yno [deir] blyned, ac yn y wledeu yn vynyeh, kanys y ni, y Brodyr Llwydon, y mae lle gossodedic yn y llys, a reit vydei y mi (yn) vynet y'w ven-[268]digaw ef. A mi a ouynneis y rei yno, rif gwyr y llys, ac wynteu a dywedassant vot yno o gler, betwar cant ar dec, ac o geitweit kwn ac adar, vn kant ar bymthec. Riuedi medygon Arglwyd Kan, petwar cant; o Gristynogyon, wyth gant, ac vn Sarasin, a[r] rei hynn oll yn kael y reideu yn llys yr Arglwyd Kan.

Pan varchokao ef o wlat y gilyd, y niuer a rennir yn betwar llu o wyr meirch, a phob llu siwrnei diwarnawt o vlaen y gilyd, ac ynteu ehun yn y kenawl, [ac] wynteu yn groes o[e] vlaen ef, ac yn y ol, ac o bop tu ydaw; a siwrnei ossodedic y bawb ohonunt, ac eu reideu yn barawt udunt heb dim eisseu.

Yr Arglwyd Kan, amgen, a eisted mywn kart a dwy rot ydaw, wedy y wneuthur o'r prenn bonhedic a elwir aloe, wedy y doi oll oc eur ac a mein margarit; a dec o eliphanyeit, dan eu hadurn, yn y dynnu, ac yn eu blaen wynteu, dec o'r meirch [269] mwyaf a theckaf ac yn da eu hadurn.

Geyr llaw y kart hwnnw y marchocka dec o varwynyeit y warchadw rac dyuot neb yn y gyuyl. Ar y kart, geyr y law, y byd deu heboc vonhedic a elwir girffawcwn; a phan welo ef adar a vynno eu daly, gollwng yr hebogyait a wna ac ar vrys wynt a'e dalyant. Ac velly y keif ef digrifwch yn marchogaeth. Ac o ergyt maen, ny beid neb nessau at y kart dieithyr y rei gossodedic. Ac amylder y niuer hwnnw, onyt a'e gwelei, nys credei neb.

Y Kan hwn a rann y gyuoeth yn un rann ar dec; yn y rann y byd dwy uil o brif dinessyd. Kyflet yw kyuoeth yr Arglwyd Kan ac na ellit y gerdet yn chwe mis. Yr Arglwyd Kan, ual y caffo trauaelwyr lletyeu ar draws y gyuoeth, gan ystlys y fyrd a beir gwneuthur [rei o'r] lletyeu parawt.

Ffordd y Brand Odrig

[XVIII. GWLEDDOEDD YR ARGLWYDD KAN.]

Yr Arglwyd Kan a wna pedeir gwled yn y vlwydyn; vn ynghyueir y dyd y ganet; arall ynghyueir y dyd y bedydwyt; y dryded ynghyueir y dyd y priodet; y betwared ynghyueir y dyd y koronhawyt. Ac yn y gwle[270]deu hynny y gwahawd ef y holl varwnyeit a'e holl genedyl.

Yna pan eistedo yn y drwn, y deuant y barwnyeit, a choroneu eur am eu penneu, ac eurdyrch am y mynygleu, a gwisgoed amryuael amdanunt; y rei kyntaf o wyr, a'r eil o goch, y dryded o velyn; a phob vn a thabyl yn y law o deint eliphanyeit, a chylch eur ar bob vn onadunt. A[r] rei hynny a sauant yn distaw. Ynghylch y rei hynny y byd y gler, ac eu kerdeu gantunt.

Ynghongyl y palis hwnn y bydant y filosoffwyr yn synnyeit eu keluydyt. A phan del yr awr a'r bwynt yr archant y'r ringhyll griaw hyn[n] :—“Gogwydet pawb y'n amherawdyr ni!” Yna y syrthant y barwnyeit oll ar y daear. Od[y]na yr eilweith y cria, “Kyuodet pawb y vyny!” Ac ar vrys, yna, wynt a gyuodant. Y[n] awr arall y ringhyll a eirch, “Dodwch ych byssed yn ych clusteu! Tynnwch wynt bellach!” Ac vell[y] y gwnant ym pob awr ardangos ryw weithret. Ac wynt a dywedynt vot pob pwnc o hynny yn dangos ryw serten arwydon; dieithyr na didoreis i dim y wrthunt, kanys gwac a chellweir oedynt y deilwng.

Odyna [271] yd archei yr ringhyll y'r gler ganu, a hynny a wneynt wynteu, yn da ac yn digrif, a hynny a vu well gennyf i no'r gweithredoed ereill oll. Odyna y daw llewot y adoli yr Arglwyd Kan. Odyna yr hudolyon a barant y fiolleu eur ac aryant, yn llawn o win, chwarae yn yr awyr, ac y mywn serten o amser darestwng att y gwyr y gael diodydd o honunt. Hynn a llawer o betheu ereill a weleis yno, y rei nys credwn vyth pai nas gwelwn.

Ffordd y Brwd Odrig ^{shd be gollwng}

[XIX. TIR PRETEGOAN A BRENHINIAETH TUBEC.]

O vrenhinaeth Kattai, gwedy teir blyned y deuthum i, ac y kerdeis cant siwrnei parth a'r dwrein y'r tir a elwit Pretegoan, a'r dinas pennaf yn y wlat honno a elwir Rosan, a llawer o dinessyd yssyd y danei hitheu.

Odyna mi a deuthum, trwy gerdet llawer o dydyeu, y'r wlat Kosan. A'r eil wlat oreu yw honno o'r holl vyt, a goreu y hadeil. Llet y wlat yw dec siwrnei a deugeint, a'e hyt yw mwy no thrugein siwrnei. Ac yno y mae amylder o ymborth, ac yn enwedig o'r castanis. Ac vn yttiw o'r deudec province yr Arglwyd Kan.

Odyna mi a gerdeis y'r vrenhinaeth a elwir Tubec, yr honn yssyd darestyngedic y'r Arglwyd Kan; yn yr honn [272] y mae mwy o win noc yn yr holl vyt, hyt y gwnn i. Gwyr y wlat honno a bresswylant mywn pebylleu o felt du. Ac eu prif dinas a deryw y vagwryaw o'r mein teccaf, a'r heolyd.

Yn y wlat honno ny leussir gollwng gwaet y dyn nac y lwdyn, o achaws geu duw, yssyd yno. Yn y dinas hwnnw y mae presswylau y Bassis, sef yw hwnnw, eu pab wy; kanys megys Pab Ruuein yn bennaf ar y Cristynogyon, velly y mae ynteu yn bennaf arnunt wynteu oll.

Pan vo marw gwr yn y wlat honno, y vab a cilw attaw yr offeiryat a'r gler, ac a dyweit wrthunt y mynn anrydedu y dat, a pheri a wna y dwyn y'r eglwys a'e genedyl a[e] gedymeithon y gyt ac ef. Yna yr effeiryteit a ladant y benn ac a'e rodant y'w vab, a'e gorff a dryllyant yn dryllyeu man, ac a dygant y'r mynyd, ac yno y gadawant wy euo. Yna y daw ryw adar gwylltyon ac ar vrys a'e hysglyfyant ymeith ganthunt. Ac odyna y ret y glot ynteu, gan dywedut pan yw sant oed, ac y engylyon y dwyn y baradwys. A hynn yw yr enryded mwyaf a dichawn mab y wneuthur y'w dat, medant wy.

Y mab yna a gymer y penn ac a beir y veirwi, ac a'e bwyta yn llwyr. [273] Ac o siol y penn a beir gwneuthur ffiol ydaw, a'e hadurnaw yn da, ac o honno yd yf ef pan wnel gwled er

Ffordd y Brand Odrig

enryded y'w dat. A llawer o betheu dybryt a wnant wy yno, y rei nys ysgriennaf i, kanys nys credei onyt a'e gwelei.

[XX. Y GWR CYFOETHOG; A BRODYR CREFYDDUS MELESTORTE.]

Pan yttoedwn i yn y wlat a elwir Manki, mi a deuthum heb llys gwr kyuoethawc, yr hwnn yd oed dec a deugeint o vor[yn]yon yn y wassanaethu, o'e garesseu ehun. Ac arnaw y gwassaneythit beunyid o bum seic; a chanu a wneynt wrth y wassanaethu, a hynny yn digrif iawn. Y llys oed ehalaeth o dwy uilldir gylch ogylch idi; a'e phamant yssyd a'r neill hanner idaw yn eur a'r llall yn aryant. Geyr y llys y mae tule gwedy y wneuthur oc eur ac aryant. Ac yn hwnnw y mae eglwysseu a chlochdyeu ac amryuaelyon betheu yr didanwch a solans y'r gwr uchot. A phetwar yssyd o[r] ryw hynny yn y wlat honno.

Ryvyc a balched gwyr y wlat honno, bot ewined hirion udunt, ac yn enwedic ar y bawtuys, mal y gallont eu troi ynghylch eu dwylyaw. A balched y gwraged yw bot traet bychein udunt; ac am hynny, y mamheu a rwymyant traet eu merchet tra vont ieueink, rac udunt dyuu yn ormod.

Odyna mi a gerdeis y tu a'r dwyrein y'r dinas a elwir Melestorte. Dinas arderchawc kyuoethawc yw hwnnw. Ac yno y mae brodyr creuydus yn presswylaw; y rei trwy nerth [274] Iessu Grist, a rinwed y gic a'e waet a yrrant gythreuleit o dynyon. Kanys llawer o'r ryw rei hynny yssyd yno, ac a hebryngir siwrneî dec niwarnawt hyt attunt wy. Ac [w]ynteu trwy nerth Duw a'e iachaant, ac eu bedydant. Ac eu geu duweu ac eu hanifeilyeit a rodant y'r brodyr, ac wynteu a wnant tan, ac a vwryant y geu duweu yndaw, ac wynteu a ant o'r tan. Sef a wnant y brodyr yna, bwrw dwfyr swyn arnunt, ac elchwyl eu bwrw yn y tan. A'r kythreuleit yna, megys mwc du drewedic, a ant ohonunt, ac yna llosgi a wna y delweu. Yna y clywir llef yn yr awyr yn dywedut, "Edrych mal yr ydys y'm gyrru i o'm presswylaw". Ac uelly y maent

lys bawd

*sld ce
dean*

elchwyl once more, again

Ffordd y Brawd Odrig

y brodyr yn trossi llawer y gret ohonunt, ac yn eu bedydyaw ; ac wynt a ymhoelynt drachefyn y eu hangret pei na bei y brodyr yn wastat yn pregethu udunt.

[XXI. DYFFRYN Y MEIRW.]

Heuyt, peth aruthur a weleis i yno, kanys pan yttoedwn yn kerdet ar hyt dyffryn bychan, geyr llaw Auon y Chwanteu, mi a welwn lawer o gyrff meirw. Ac yn y (y) dyffryn hwnnw mi a glywn amryuaelion gerdeu, a'r rann vwyaf ohonunt yn delyneu ; a mi a ofynheis yn vawr.

Hyt y dyffryn [275] oed o'r lleiaf seith milltir neu wyth ; yr hwnn, pwy bynnac a elei ar vrys ydaw, ef a vydei varw kynn elei hanner y dyffryn. Ac am hynny, gwyr y wlat honno ny deuant yn y kyuyll. Minheu a damuneis vynet y'r dyffryn hwnnw ; a glut wediaw Duw a wneuthum, ac ym-groessi o arwyd y groc, a mynet idaw.

Ac yno mi a weleis o gyrff meirw hyt nas credei neb onyt a'e gwelei. Yn y dyffryn hwnnw, ar y naill hanner ym, o ystlys tarren vawr, mi a welwn arlun wyneb dyn, yr hwnn a edrychawd yn aruthyr vredychus arnaf i. A mi a dybyeis o lwyr ofyn y bydwn varw ; dieithyr vyth yr oed y geireu hynn yn vy meddwl, dan groessi ynghallon, "Verbum caro factum est ; et h[ab]itavit in nobis". A mi a euthum yn kyn nesses ydaw ac nat oed y rynghof ac ef ymlaen seith kam neu wyth.

Odyna mi a gilyeis hyt yr hanner arall y'r dyffryn, ac y¹ benn tule tywotlyt mi a dringeis, ac 'a edrycheis o boptu ym, ac ny welwn dim onyt y telyneu [yn] y kanu ehuncin dybygwn (n)i. A phan deuthum i y benn y tule, mi a welwn amylder o aryant ar hyt y daear ; o'r rei y kynulleis lawer y'm asgre, ar vedwl eu dwyn gennyf y eu dangos yn enryvedawt. Ac odyna vynghytwybot a beris ym eu bwrw oywrthyf, heb (. . .) dwyn dim o honunt. Ac velly trwy rat Duw y deuthum i odyno yn ryd diargywed.

¹ Llsg. o.

Ffordd y Brawd Odrig

Pan wybu bobyl y wlat ymi [276] dyuot odyno yn vyw, enryded mawr a wnaethant ym, gan dywedut vy mot yn santeid, ac yn vedydyawl; a dywedut pan yw kyrff dynyon oed y rei a welwn (n)i, a chythreuleit o uffern a oedynt yn kanu y telyneu y dwyllaw dynyon y dyvot attunt y eu llad.

Myui, y Brawt Odrig, a ysgriennais hynn o enryuedodeu; a llawer o amryuaelyon betheu a weleis i, ac nys roessum ar gof, kanys nys credei neb onyt a'e gwelei yn gyndrychawl.

Ac uelly y teruyna *Siwrnei y Brawt Odoric* yn India; yr hwnn a drossawd Syre Davyd Bychein o Vorgannwc, o arch a damunet Rys ap Thomas vab Einyawn, y veystyr ef.

Jancyn vab Davydd vab Gruffydd.

NODIADAU

Tud. Ll.

- 31 1 *treithir o* : Cf. w.m. 178 "ac velly y *treithir o* gaer yr ynryfed-odeu". Ceir "draethaf" heb yr arddodiad *o* yn ll. 7. Gw. hefyd y cyfeiriadau yn D.B. td. 152. Sylwer ar ystyr arbennig y gair (= *trin*) yn A. ac A. td. 14, "pa wed y daroed idaw . . . *traethu* merch y brenhin".
- 3 *Amryuaelyon* : Gw. nodiad yn LL. LL. td. 31.
- 3 *enryuedodeu* : Gw. B.B.C.S.I. td. 24 ar *rhyfedd* (nodiad I.W.)
- 4 *grefydd* : "urdd grefyddol"; cf. CH. O. td. 5, ll. 6, a gw. nod.
- 5 *troetnoeth* : Yr enw cyffredin yn y Lladin ar yr urdd oedd "Fratres Minores". Gan mwyaf, Grey Friars y gelwid hwy yn Lloegr, a "Brodyr Llwydon" isod, td. 52.5. Y mae sôn amdanynt gyntaf yn Lloegr yn 1224 (*Monumenta Franciscana*, arg. Brewer, 1858, td. 5); ac yng Nghymru ceir hanes am godi tŷ iddynt gan Lywelyn Fawr, yn fuan wedi 1237 (gw. HIST. OF WALES, II, td. 686). Yn orgraff y testun saif *-t-* am *t* : gw. ar *petwyr*, td. 34.9.
- 5 *broffesawl* : Ni welais ddim yn y Lladin yn cyfateb. *Proffes*—S.C. *professe* (E.E.W., td. 111). Fe ddefnyddir y gair *profes* yn y Ffrangeg am aelod o urdd grefyddol, ac fe wedda'r un ystyr i *broffesawl* yn y fan hon.
- 5 *Fforomlij* : H. "Odoricus de foro Julii". Fe wyddai'r cyfieithydd, bid sicr, mai *forum* oedd cyflwr enwol *foro*, ac efallai mai'r copiwr a droes "Forum Julii" yn "Fforomlij". Gw. Rhag. td. xiv.
- 5 *de partu Vahonis* : H. "de portu Vahonis". AR. ". . . Nahamonis"; mewn cysylltiad arall ceir "Naonis" yn B.N. Troes "Portus Naonis" yn "Pordenone", sef yr enw presennol.
- 9 *Mor Mawr* : H. "Mare Majus"; sef "Pontus Euxinus".
- 10 *Trapesundan* : H. "Trapesundam"; sef *Trebizond*, ar lan ddeau'r Môr Du.
- 11 *yssyd y adeiladen* : Fe welir y gystrawen ryfedd hon yn yr enghreifftiau a ganlyn : D.B. td. 45, "Yno Pontapolis y gan e pym dinas yssyd y enw, Bernice . . ."; A. ac A. td. 16, "Y gwr yssyd gynnevodic ganthaw . . ."; do. td. 3, "rodwch y anghenogyon . . . y rei yssyd reit udunt wrthaw"; LL.A. 10, "Y petheu yssyd dyghetuen ygan duw idaw ywnneuthur". MATTH. v, 6, "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn . . .".
- 12 *ysgala o Bers a Medi* : H., B.N. "sicut scala quaedam Persarum & Medorum". Boll., "schola". Methodd y cyfieithydd

Nodiadau

Tud. Ll.

- ddeall *scala*. Ystyr gyntefig y gair oedd “ysgol” (< Llad. *scāla*), a datblygodd yr ystyr a geir yma, sef “porthladd”, o herwydd defnyddio *scala* wrth lanio mewn porthladd. Gw. Du Cange dan *scala* (portus minor).
- 31 12 *eidunt, etc.*: H., B.N. “Sicut . . . Medorum & eorum qui sunt ultra mare”. Wedi methu gan D.F. ddeall *scala*, yr oedd gweddill y frawddeg yn dywyll iddo. Yr ystyr yw bod “Trapesundan” yn hafan i’r Persiaid a’r Mediaid ac i’r bobl “yssyd tramor”.
- 14 Rhaid darllen “a’r partrissot” yma er nad oes dim yn y llsgr. H. “Homo autem per terram gradiebatur, *perdicēs* vero volabant per aera”. Y mae rhywbeth aneglur yn y llsgr. o dan “chedynt”. Cf. “partrissot”, td. 31.18, a gw. E.E.W., td. 77, a CH. O., td. 56, “cp. Saesneg Canol *pertrich*, *partrich*, Hen. Ffr. *perdriz*, *pertriz*, o’r Ll. *perdix*”.
- 16 *Nazarena*: H. “Zavena”; B.N. “Canega”; hefyd, “Zanega, Zanga, Tanegar, Tegana”; sef y dref Zegana, rhwng Trebizond ac Erzerum.
- 21 *palis*: H. “palatium”; gw. ar 50.24, ac E.E.W. dan ‘plas’, ‘paleis’, a ‘palas’.
- 21 *Amberawdyr*: Alexius II, a lywodraethai dros ymerodraeth Trebizond o 1297 hyd 1330 oedd hwn.
- 24 *Athanasij*: Bu Athanasius farw, meddir, yn 373, ac fe’i claddwyd yn Alecsandria; ac yna cludwyd ei gorff i Gaer Gystennin. Pan feddiannwyd y ddinas honno, aethpwyd â’r creiriau i Venice, ond nid oes hanes, medd Yule, am eu cludo i Zegana.
- 24 *ar uchaf y porth*: H. “supra portam”. Cf. w.M. 173, “a hi a roes idaw march ac arueu a chwmsallt p[ur]goch *ar uchaf* y arueu . . . gwr oed a chwmsallt coch *ar* . . . *uchaf* y arueu”; do. 178, “a tharaw y widon *ar uchaf* yr *helym*”. Rhoes *ar ucha*’ yr arddod. *acha* yn nhafodiaith Morgannwg.
- 26 *Azaron*: sef Erzerum (< *Arzan-al-Rum*, Arzan Rufeinig). Saif y ddinas dros 6,000 o droedfeddi yn uwch na’r môr.
- 27 *Tartari*: Bu bron i’r rhyfelwyr hyn ddarostwng Asia a rhan helaeth o Ewrop yn y 13eg ganrif. Meddiannwyd “Azaron” yn 1241.
- 32 4 *Eufrates* . . . *boned*: H., “nam venae illarum aquarum oriri videntur & scaturire a flumine magno Euphrate”. Arferir *boned* yma yn ei ystyr gysefin i roi’r syniad a gyfleir gan “oriri”. Fe dardd *Kara Su* ychydig filltiroedd oddi wrth Erzerum, ac ymuna ag Ewfrates.
- 7 *Cawsirium*: H. “Taurisium”; sef Mynydd Taurus yn Asia Leiaf.

Nodiadau

- Tud.* *Ll.*
- 32 8 *Sobissatolo* : H. "Sobissacolo", Credai Yule fod a fynno'r enw â Hassan-Kala'a, tref 24 milltir o Erzerum.
- 15 *Tabris* : H. "Tauris civitatem". Parhaodd y ddinas hon, Tabriz, yn ei gwychder hyd y 17eg ganrif.
- 15 *Suseris* : H. "Sosis".
- 16 *o varsiawndaeth* : Gweler y ffurfiau amryfal yn yr eirfa, ac E.E.W., td. 62, etc. (< S.C. *marchand*, *marcaumnd*).
- 17 *a deryw y (y) adeilyat* : Ymddengys nad oedd D.F. yn gyfarwydd ag arfer y gystrawen hon gyda *darfod*, gan na lwyddodd i'w defnyddio'n gywir ond unwaith, sef td. 32.33. Y mae'n gywir ar dud. 34.24 gyda "dambweinyawd".
- 21 *mynydd Salinus* : H. "mons salinus". Tybiodd ef mai enw'r mynydd oedd "Salinus".
- 22 *y gymryt* : cf. 51.8. Wele enghreifftiau hŷn o gystrawen debyg : *Llyfr Coch Hergest*, col. 522-3 (copi I.W. yn B.B.C.S. II, td. 12) "Sef yw hynny twyll yr emeith ny adant y meirch y *gerdet* . . ."; do. col. 524, "gadel rycheu dwfyn y adel y dwfyr y *redec* ohonaw ymeith. Ae adel ynteu y *rychu* kyn y heu"; A. ac A., td. 5, "Ac yr hynny yd oed ev yn karu bawp ohonunt wy, ac yn erchi y duw y *vadeu* udunt ac nas gedynt ev y *gardota*"; LL.A., td. 116, "Ac naat vi *yrigryw* avo hwy"; do. td. 107, "y petheu ysyd dyghetuen ygan duw idaw ywnneuthur" (?). Gw. B.B.C.S. iv, 184.
- 24 *Sarasinyeit* : gw. E.E.W., td. 78 (< S.C. *sarcin*, etc.)
- 25 *Soldonia* : H. "Soldania"; sef Sultâniah, dinas frenhinol a godwyd yn 1305, ac felly'n newydd yn amser Odrig.
- 28 *Bacuc* : H. "Bakuc", sef Baku heddiw, ar lan Môr Casbia.
- 28 *ebalaeth* : gw. nodiad yn LL. LL. ar I, 9.
- 32 *tri geu diuw* : H., B.N. "trium magorum"; cf. "tri brenhin" 33.3. Cyfeirir at y doethion o'r dwyrain a ddaeth i weld Crist; gw. nodiad yn I.G.E., td. 329.
- 32 *Cassar* : H., B.N. "Cassan"; yn awr Qashân, sef dinas yn Mhersia, hanner y ffordd rhwng Sultâniah a Yezd. Bu'n enwog am lestri a elwid "Qaschi". Gwelir yn awr beth oedd yr "India Uchaf" yn ll. 31.
- 33 *arbennic* : H. "nobilis". Gw. s.e. d. g. Arferir y gair yma yn yr ystyr gyntaf, sef 'prif', 'rhagorol', 'gwych'.
- 33 *daruot* : gw. uchod ar 32.17, a w.G. 351.
- 33 4 *amryuaelyon* : H. "Multa mirabilia". Efallai fod "ryuedodeu" wedi colli.
- 6 *Gest* : Yn awr Yezd, sef oasis yn anialwch Persia. Deil o hyd yn lle pwysig i fasnach.

Nodiadau

Tud. Ll.

33

- 7 *Mor Tywawt* : H., B.N. "mare arenosum". Cyfeirir ato gan P. M. Sykes (*Ten Thousand Miles in Persia*, td. 155).
- 9 *yn lle arall* : Mewn Cymraeg canol fe arferid "yn" yn gystal, ag "(y)mywn" o flaen enw amhenodol; e.e. w.m. col. 188; "yg wladocedd ereill"; LL.A., td. 164, "yn llyureu ereill" A. ac A., td. 5, "yn lle brenhinawl"; cf. hefyd, G.O., td. 24, "yn ebyr, ym myr, ym mas".
- 11 *med* : Gw. ymdriniaeth helaeth gan I.W. â'r gair yn B.B.C.S., I, td. 23.
- 11 *dichawn* : Dengys y Llad. fod y testun wedi'i golli; H. "nullus Christianus . . . vivere posset". Gw. nodiad ar *coned*, etc., gan J.Ll.J. yn B.B.C.S., II, td. 6-8.
- 14 *Comwn* : H. "Comum"; B.N. "Conium"; hefyd ceir "Comerum, Coprum". Fe gred Yule mai Persepolis yw'r ddinas y sonnir amdani.
- 16 *kyua* : Rhoddwyd *n* uwch ben y gair gan law ddiweddar, ond nid oedd raid wrthi. Nid yw'n debyg yr ysgrifennai D.F. *kyuan* ar ôl enw lluosog, ond *kyuein*.
- 16 *heb neb yn kynnal yndunt* : Felly yn H. "non habitata", eithr y gwrthwyneb yn B.N. ac eraill, "inhabitabilia, inhabitata". Y mae *kynnal* yma yn ferf gyflawn; a dyry s.e. d.g. ddwy enghraifft arall lle mae felly :—
"Kynnal eiryoet hyt y gallyssei a wnathoed yn erbyn Arthur.—*St. Great* §195.
A ydych yn *cynnal* mewn arian yn awr? are you well off as to money just now?—*Gwent*".
- 19 *Tir Job* : H. "terram Job, nomine Hus". Cred Yule mai Hasa yw Hus, yn Kurdistan, ac mai glos ar yr enw hwnnw ydoedd "terram Job" i ddechrau.
- 21 *ymellin nef* : Y mae nodiad pwysig gan I.W. yn y *Beirniad*, VIII, td. 256, lle defnyddir yr enghraifft hon i egluro ystyr llinell yn D.G.G., td. 41, "Meillion ir a melli nef" (darll. "Meillion ir, ymellin nef"). Dyry enghraifft arall o "emellin" yn *Llyfr Taliesin*, td. 19, ll. 4 (= *manna*).
- 22 *newit tec* : H. "Ibi habentur quatuor perdices pro minori quam pro uno grosso". Yn sicr, byddai cael pedair petrisen am lai na grôt yn 'newid teg' i'r prynwr o'r hyn lleiaf. Ceir yr un ystyr i *newid* yn *Llyfr Coch Hergest*, col. 525 (copi I.W. yn B.B.C.S., II, td. 14), "A brynych o aniveileit trwy y vlwydyn y eu gadu yn ystor pryn rwng y pasc ar sulgwyn. Kans goreu y *newit* yn yr amser hwnnw arnunt"; ac D. NAN., td. 2 :—

"Yn dwyn, ni bu newid well,
Gwin at hwn o gan tynnell".

Nodiadau

Tud. Ll.

- Cf. hefyd y glos Hen Lyd. *nouitiou* ar y Llad. *nundinae* (LOTH. VOCAB., td. 196).
- 33 24 *Calde*: Dywed Yule (c.w.r., ii, td. 109), "I suppose Odoric to pass through a part of the hill country of Luristan or the regions adjoining, if he does not indeed proceed north as far as Mosul, before descending into Chaldaea. The fine hill pastures, abundant manna, profusion of partridges, and fine old men . . . are all characteristic of the mountains of Kurdistan, embracing the Huz of Odoric . . . The knitting and spinning of the men I do not find anywhere mentioned". Y mae'r peth olaf hwn yn bur gyffredin ym Mhersia a phentrefi gogledd yr India hyd heddiw.
- 25 *Caldea*: Dengys y Lladin mai'r un wlad a ddynoda *Caldea* yma â *Calde* uchod: H. "Inde ivi in Chaldaeam quae est regnum magnum, & transivi juxta turrim Babel". Tybia Yule mai Bagdad yw "Caldea" Odrig, er na ellid galw'r ddinas honno'n "regnum magnum". Y mae olion Babilon ryw 60 milltir o Baghdad.
- 27 *ardunyant*: H. "compti crinibus, & ornati". Gwelir dwy ystyr yr enw *ardunyant* yn S.D.R., (1) ll. 83, "a than ysgythru y phenn o'e *bardunyant* (= addurn) a'e gwisgoed . . ."; (2) ll. 114, "A gwedy treulaw y dyd hwnnw a'r nos honno ar *ardunyant* (= anrhydedd) y'r vrenhines . . .". Yma yn ein testun y mae'r ferf yn gyfystyr ag *addurnant*. Fe ddywedir yn W.G., td. 187, mai **ard* ('high') a roes *bardd* ('handsome'), ac os o'r ansoddair y ffurfiwyd y ferf, gwelir yr un newid yn yr ystyr; dyrchafu—anrhydeddu—prydfferthu—addurno.
- 28 *crys gognitta*: H. "vilem camisiam"; B.N. "vilem interulam". Nid yw'n debyg mai "vilem" oedd yn nhestun Lladin D.F.
- 31 *yr India . . . o vywn y hynny*. H. "in Indiam quae infra terram est". Esbonnir yn c.w.r. ii, td. 111, "The 'infra' is to be taken in the Italian sense. It is plain that he means some region adjoining the Persian Gulf". Gelwid y wlad o amgylch Basrah, rywdro, yn *Arz-ul-Hind*, sef Gwlad yr India.
- 33 *datys*: H. "dactylos". Dan *dactylus* dyry T.W. *Dât, y prenn Dât*, a rhoir enghraifft o *dattas* (< S. 'dates') yn E.E.W., td. 100.
- 34 1 *Ormes* (Ormuz) —porthladd a dinas enwog ar lannau Morgainc Persia. Awgrymir yn ENC. BR. 13, td. 694, fod a fynno'r enw a'r gair *Kburma* ('dât').
- 3 *kymeint . . . ac yd ymystyn*: Dyma'r gystrawen gyffredin mewn Cym. C. i ddynodi 'canlyniad'. cf. 35.31, etc.

Nodiadau

Tud. Ll.

- H. "tantus calor est, quod virilia hominum exeunt corpus, & descendunt usque ad mediam tibiaram". Diau mai'r clefyd a elwir "Elephantiasis arabum" sydd yn gyffredin mewn gwledydd poethion oedd hwn (Gw. ENC. BR. 9, td. 261).
- 34 5 *a'r ryw ireit*: (= â'r rhyw iraid): H. "ideo homines illius terrae volentes vivere, faciunt unctio-num, unguent illa".
- 6 *kyden*: Cf. y ffurf fenywaidd *coden*, 42.16.
- 7 *eu barch*: H. "circa se cingentes"; gw. D.B., td. 121 nodiad ar *ac artblenn*.
- 8 *Tana*: Dywed y Lladin mai mewn 'llong â'i choed wedi eu gwnïo wrth ei gilydd' yr aeth Odrig i'r ddinas hon, sef hen ddinas a elwid *Tana* ar Ynys Salsette, ger Bombay. Bu rywdro'n brif ddinas talaith Konkan.
- 9 *petnyr*: Fe duedda *d* yn y testun i droi'n *t* o flaen *n* ac *w*, e.e.:—troetnoeth 31.5, getwir 40.20; keitweit 48,6, gytneit 42.11, marsiantwyr 48.9, etc.; gw. w.G., td. 183.
- 11 *Porenrawc*: H., B.N. "regis Pori"; Boll. "Regis Ponti vel Parti Regis". Tywysog o Indiad oedd Porus a fu'n ymladd yn ddewr ag Aleksander Fawr yn y 4edd ganrif c.c. Llywodraethai ar y wlad rhwng yr afonydd Hydaspes ac Acesines (ENC. BR. 22, td. 169). Tebyg mai gwall copio yw *Porenrawc* (? Por enwawc).
- 12 *Alexander Mawr*: Aleksander III, frenin Macedon (356–323 c.c.) Gwelir cytsain ddechreuol yr ansoddair heb feddalu hefyd yn LL.A., td. 68, "A. mawr", a D.B., td. 29.
- 13 *a adolant eu duweu*: H. "Hujus terrae populus Idolatrat", felly *eu* < *geu*.
- 13 *a'e med ac yssyd . . .*: H. "Et istam terram regunt Saraceni, qui violenter eam acceperunt, & subjacent imperio regis Daldali". Dengys y Lladin mai "Sarasinyeit" yw rhagflaenydd *yssyd*; fe gysyllta ac ddwy frawddeg berthynol gydradd.
- 14 *Daldali*: Tybiodd Yule mai'r hyn a ddywedodd Odrig, wrth adrodd ei hanes, oedd, "sotto la signoria *del Dili*", ac mai "Dili" (Delhi) oedd yr ymerodraeth. Dyry Cordier nodiad diddorol ar y gair (c.w.r. ii, td. 115):—"With regard to the dominion of the Saracens, we may observe that the house of Khilijé, founded by Jalál-ud-din, who succeeded to the throne of Delhi, lasted from 1290 to 1320, . . . in 1318, a short time before the arrival of Odoric, Harpála, the last of the sovereigns of Devagiri, revolted, was captured and skinned alive by Múbarik, successor of Alá-ud-din. The house of Khilijé was replaced by . . . Ghujás-ud-din Tughlak, who founded the Tughlak

Nodiadau

Tud. Ll.

dynasty (1320-1414). It is evident from Odoric's testimonial that—if rebellions were constant inland—the maritime emporia were kept in order by the Musulman governors”.

34 15 *llewot duon . . . a maenones a nocue* : B.N. “. . . leones nigri in maxime quantitate; sunt autem symiae et *gattimayones*, et *noctuae* ita magnae sicut habentur hic columbae. Ibi mures sunt ita magni sicut hic sunt canes scherpi. Ideoque illic canes capiunt mures [quia] murilegae seu katti ad hoc nihil valent”. Y mae'n amlwg mai ail ran *gattimayones* yw *maenones* y Gymraeg (cf. isod 48.29 *maranones*); s.Y. “baboons”; s.H. “monkies”. *Noctuae* a roes *nocue*; s.Y. “bats”; s.H. “battes”. Am *canes scherpi* ceir yn s.Y. “dogs called scherpi”, ac yn s.H. “countrey dogs.” *Teigrod* yw'r ‘llewot duon’ medd Yule.

panthers?

21 *Polumbrum* : Gwall cyffredin iawn yn y testunau am “Columbum”, sef Quilon (Kulam) heddiw yn neheudir yr India.

26 *Cadi . . . esgob* : H. “quae suo Kadi, i. Episcopo conquesta est”. Glos ar “Cadi” yw “esgob”; enw'r swydd, nid enw'r dyn.

29 0 *wyr creuydus o Ffreink* : H. “4 Franchi, i. viri religiosi.” Y mae'n debyg bod “petwar” wedi'i golli wrth gopio. Ystyr *Ffreink* yma yw “Ffrancwyr”, a “myneich” neu “frodyr” yn ddiau yw'r (*g*)*wyr creuydus*, cf. *greuydwyr*, 47.8, a LL.A., td. 89, a 112, a W.M., col. 239.

35 4 *Thomas de Tholomeno*, etc.: Yn y Lladin ceir “Thomas de Tolentino”. Gwyddys bod y brawd hwn yn filwr enwog yn ei urdd. Yr oedd tua 70 mlwydd oed pan ferthyrwyd ef, a chredir mai i dref Tolentino y daethpwyd â'i benglog, er i Odrig honni iddo gludo esgyrn y merthyri hyn i China. Nid oes dim mwy yn hysbys am y tri arall, nag a fynegir yma. Wele'u henwau yn H., “frater [Thomas] de Tolentino de Marchia, frater Jacobus de Padua, frater Demetrius Laicus, Petrus de Senis”. Am y trydydd dywed Cordier (C.W.T., ii, td. 119), “Demetrius of Tiflis, in Georgia, Interpreter”. Saif *Senis* am *Sena Julia*, sef *Sienna* heddiw.

7 *ac nat Duw* : *na*, *nat* oedd y cysylltair negyddol a gyfatebai i *pan* yw, *mae* (mai), mewn brawddegau dibynnol; gw. W.G., 448.

9 *exampleu* : gw. E.E.W., td. 201 (*exawmpyl*, *exawmpleu*), a 53 (*siompyl*), a cf. D. FFEST., td. 28 [101] *ensampyl*; td. 23 [91] *ynsampyl*; td. 26 [97] *sampyl*. Y mae'r frawddeg hon dipyn yn llawnach a chliriach yn y Lladin, gw. tud. 99.

23 *mab y kyfyrgoll* : H., “filius perditionis”. Yr oedd hwn yn ymadrodd ystrydebol; gw. D. d.g.

Nodiadau

Tud. Ll.

- 35 24 *yn dianwl* : Nid oedd ei gwmp lawn cyn ised yn ôl H., “& in inferno *cum Dabolo* patre suo”.
- 28 [*Lladber*] : Y mac'r gair yn aneglur, ond fe geir ailadrodd yn y testunau Lladin hwythau ; H. “*moriatur, moriatur*”.
- 28 . . . *yn erbyn* : Y mac rhywbeth annarllenadwy o flaen *yn erbyn* yn y llsg. Credaf mai ysgrifennu'r geiriau hyn ddwywaith a wnaeth y copiwr, a chywiro'r gwall wedyn. Dyma'r lle y dechreu'r tudalennau sydd â'u hymyl yn eisiau. Ceisiwyd llenwi'r geiriau a gollwyd.
- 29 *yna y rwymassant*, etc.: gw. td. 100.
- 36 12 *ordinbau*, etc.: Cafwyd *ordeinio* o'r S.C. *ordain*, *ordeine* (E.E.W., td. 192), ond rhaid mai'r enw Ffrangeg *ordinant* a roes fôn y ferf *ordinbau* ; gw. y *Llad.*, td. 100.21.
- 19 [*di*]ffrnythawd : H., “*totaliter consumpto*”. Y mac'r ferf yma'n gyflawn, ac yn gyfystyr ag “aeth yn diffrwyth”.
- 27 *yn gatholic* : h.y., yn dal dan bob amgylchiadau ; gw. S.E., d.g., a w.G., td. 53. Nis rhoddir yn E.E.W. fel gair benthg o'r S. ? < Ffr. *catholique*.
- 28 *na sant hwmn* : Mewn ateb negyddol i ofyniad, neu ynteu i frawddeg a fo'n awgrymu gofyniad, fe geir *na(c)* yn rheolaidd o flaen berf. Fe geid gynt rannau ymadrodd eraill ar ôl *na* ; ac fe welir rhagenw ar ei ôl o hyd yn yr ateb cyffredin *nage = nac ef*. Gw. w.G., td. 424-5, lle y dyfynnir enghraifft o ans. yn dilyn *na* ; “Ae guell . . . ? Na well. w.M. 85”. (darll. w.M. 84).
- 28 [*di*]eithyr y beis . . . [*a*] *barhawd* : Credaf mai rhyw ffurf ar *Abrahae* a ysgrifennodd D.F. (gw. y Lladin, td. 101.10), ac i'r copiwr fethu deall y gair, ac yna yn ei droi'n *barhawd*. Felly, fe gollwyd pwynt y frawddeg, sef mai rhinwedd y bais, a wnaethid o wlan du rhinweddol “gwlad Abraham”, a achubasai'r brawd. Yr oedd traddodiad bod Nimrod wedi taflu Abraham i dân am ddirmysgu cilun-addoliaeth, a bod yr Arglwydd wedi ei waredu. (Cf. Esecia xxix, 22, a M.V.M., td. 366).
- 37 1 *odiethyr y bobyl* : H. “*extra populum*”; cf. L.L.A. 106, “dos ti heb y sant ydieithyr yr eglwys”.
- 5 *Melic pennadur y dinas* : Dywed Yule (C.W.T., ii, td. 122) y defnyddid y gair *Malik* gan Fahometaniaid yr India am frenin ; a chwanega Cordier, “*Melik . . . governor ; under the Mongol dynasty, this title was given to the collector of taxes*”.
- 7 *A welwch chwî* : H. “*videte*”. Cyfetyb yr ymadrodd i *A weli di yma ? > wel dyma > dyma*.
- 7 o *blegyt Duw* : H. “*cum gratia Dei*”. Gwelir ystyr gysefin *oblegid yma*. *Plegid* < Llad. *placitum* ; ac o dan *placitum*

Nodiadau

Tud. Ll.

- rhydd t.w. *bodd*, fel un ystyr. Felly fe wedda “o blegyt” (= o fodd, wrth fodd) i gyfieithu “cum gratia”. Am “o’n plegyt ni”, yn yr un frawddeg, dyry H. “a nobis”, ac felly yr ystyr arferol sydd yma, sef *o’n plaid ni, o’n rhan ni*. D., “Plegyd, idem quod plaid”.
- 37 15 *distrywuyt . . . ony cheir*: Y mae amser y ddwy ferf yn anghyson â’i gilydd; eithr cymh. y gystrawen eithriadol a geir weithiau yn y Lladin; “Perieram nisi tu accurrisscs”, “Si fractus illabitur orbis, impavidum ferient ruinae,” (gw. Bradley, *Arnold’s Latin Prose Composition*, par. 463).
- erroneous* 20 *Mecha*: Yn *amryfus* y credwyd mai yma y claddwyd y proffwyd, ond lledodd y gred drwy holl wledydd y byd (gw. ENC. BRIT., 17, td. 950).
- 26 *o’e keissaw [ac] eu llad*: H., “ut irent & illus fratres interficerent”. Cadarnheir y cywiriad gan “ny chaffat” isod.
- 30 *gychwynnassant*: H., “surrexerunt”. Ystyr gysefin y ferf sydd i *cwnnu* (< *cyhwynnu) yn nhafodiaith Morgannwg.
- 35 *yr hyn yssyd wrthwyneb*, etc.: Gadawyd darn o’r frawddeg heb ei gyfieithu; gw. td. 102.20. Cf. G. a. c., td. 152, “arfaethassant yeirll kaer *gwrthwynebu* y Ruffudd”.
- 38 5 *amserawl . . . dragnydawl*: H., “temporalem . . . aeternam”. Merthyrwyd y brodyr hyn naill ai yn 1321 neu yn 1322.
- X 11 *yn [y] lle*: H., “Statim”.
- 12 *chenllyst*: Hawdd y gellid cyfnewid -st am -sc oherwydd eu tebygrwydd wrth eu scinio ac wrth eu hysgrifennu; cf. R. B. B., 152, ll. 26, “A gwedy y diotto y *wist* yd cisted”.
- 13 *tybyassai*: Weithiau ceir diweddarwch annisgwyl yn orgraff y testun, cf. *pai*, 53.31; *diwarnot*, 46, 27.
- 14 *ysgraf*: H., “navis”. Credaf mai estron yw’r *r* yn y gair hwn; ysgraf < *ysgaf < Llad. scapha, > Llyd. scaph, Gwydd. scafa.
- 20 *wrthot y fyd*: H., “quod fidem suam renueret”. Y mae’n amlwg mai *rboi heibio* yw ystyr *gwrthot* yma. Cf. R. B. B., td. 56, “y *wrthot* yr estrawn genedyl o deruyneu y wlat ef” (Llad. “expulsuros”). Dywed D., “a *gwrth* & *dodi*”, d.g. Yn y llinell nesaf, yr ystyr arferol sydd i “wrthodawd”.
- 22 *hyt yn yttoed*: H., “usque ad noctem”. Gw. w. G., td. 446, lle dangosir mai *hyt ny* > (*h*)*yny* > *oni*. Dywedir hefyd yn w. G., td. 424, y defnyddid *nyt* (= “there . . . not”) gynt o flaen llafariaid a chytsciniaid, ond darfod ei arfer yn ddiweddarach yn lle *ny* (= “not”). Gan na wyddys am enghraifft o **hyny*t yn digwydd, fe brofir yr ystyr (*h*)*yny* yn un gair cyn cymysgu *ny* a *nyt*. Er hynny, ymdengys

Nodiadau

Tud. Ll.

bod D.F. yn tybied mai *yn* & *y* oedd *yny*, canys gwahenir y gair felly ganddo'n gyson. Fe sylwir bod *hyt* yn yr ymadrodd "hyt yn yttoed" yn afraid, gan ei fod eisoes yn gynywysedig.

- 38 25 *eil dydd*: H., "die sequenti post martyruim". Disgwyliem *trannoeth*; cf. "doe" ll. 30.
- 29 *dylwyth*: H., "familia", gw. ar *genedyl*, td. 40.23.
- 39 2 *allussenneu*: Gw. nodiad ar "elwissene", D. FFEST., td. 74 [89].
- 5 *y vot yn golledic*: H., "Si quis aliquem Christianum offenderet, statim moreretur". Fe wasanaetha "y vot" ('i fod') i droi'r ymadrodd yn orchymyn amhersonol yn yr amser dyfodol.
- 9 *Bodoli*: Gwelir amrywiaeth mawr ar ffurf yr enw yn y Llad. Yr un yw â "Daldali" uchod, 34.14, sef Delhi.
- 13 [*dinustyr*]: H., "quia subvertere volebant legem nostram". Collwyd y ferf a gyfieithai "subvertere".
- 16 *bydut*: Fe gyfleir y syniad o ddymunio bod gan *bydut* yma, gw. W.G., td. 315-6.
- 18 *dylwyth*: H., "familia"; gw. ar *genedyl*, td. 40.23.
- 26 *datgledeis [y] bedeu*: H., "corpora effodi"; BOLL. "apertis sepulchris".
- 26 *India Uchaf*: sef China, medd Yule.
- 34 *ef a losges oll*: Wedi sôn am y wyrth hon, ceir yn y Lladin hanes am wyrth ar y fordaith i "Polumbrum ubi piper nascitur abundanter", pan drowyd y gwynt drwy rinwedd yr esgyrn.
- 40 2 *Cathan*: Rhoir yn y Lladin wedyn, hanes taith arall o "Polumbrum" i le y rhoes ei enw drafferth i'r copiwyd; *Zaiton* (B.N.), *Caychan* (AR.), *Carchan* (H.), ac yma *Cathan*. Ar ôl hyn, y mae dwy ddalen (mi gredaf), sef pedair colofn, yn eisiau o'r llsgr. Gymraeg; ac uwchben col. 248 y mae "Desiderantur . . . Folia" gan law ddiweddarach (eiddo Edward Lhuyd, mae'n bur debyg). Wele deitlau H. i'r darnau a gollwyd yn y Gymraeg:—"Quo modo habetur Piper, & ubi nascitur"; "De quodam idolo mirabili, & de quibusdam ritibus eorum". Yn B.N. ceir penodau byrrach dan y teitlau:—"Quo modo habeatur Piper; De regno Minibar"; "De moribus Indorum de Polumbo"; "De regno Mobar ubi est corpus B. Thomae Apostoli, et de unctionibus ydolatrarum"; "De aliis consuetudinibus ydolatrarum". Enwir yn B.N. ddwy ddinas ym Malabar, sef "Flandrina" a "Zingli". Cred Yule mai *Pandarani* neu *Pantalani* oedd "Flandrina", a dywed Cordier mai'r un oedd "Zingli" â'r ddinas *Kodun-galur-Singulyi*, neu *Kodungalur*, sef *Cranganore* heddiw (C.W.T., ii, td. 133).

> ll. 17-20 = Juggernaut. Krishna, eighth avatar of Vishnu, his idol at Puri annually dragged in procession in huge car, under wheels of which devotees are said to have formerly thrown themselves (Skr. Jaggannatha (jagar, world + natha, lord))

Nodiadau

Tud. Ll.

40

4 Yn hytrach na gadael bwlch yn y frawddeg, cyfieithais y darn mewn bachau petryal yn arddull D.F.; gw. y Llad., td. 105.27.

17 *kyhyrdo*: Gw. nodiad I.W. yn D. NAN., td. 169, ar *cybwrdd*, etc. H., "et omnes super quos currus transit, comminuit, & per medium scindit & interfecit".

18 *y meirw*: Enw *haniacthol* yw "meirw" yma; cf. "eu meirw" isod, td. 49.10. X

20 *lludw*: Yn y llsg. "llwdw". Gall mai gwall gopïo yw am "lludw" neu "lludu", cf. w.m., col. 479 "ludu", a gw. nodiad yn D.B., td. 128.

23 *genedyl*: H., "parentes"; felly hefyd td. 46.2 a 54.23. Ar dud. 51.19 a 53.5 y mae "genedyl" yn cyfieithu "parentela"; cf. td. 38.29 uchod, lle y cyfieitha *dylwyth* "familia". Arferid *parentes* a *parentela* mewn Lladin Diweddar am dylwyth; gw. DU CANGE d.g.

23 *gler*: Cyfieitha "histriones" yn ddiethriad.

29 *ymleasso*: H., "seipsum interfecit". Cf. D. FFEST., td. 61 [176] "Kymmerth ef y gyllell ac *ymleassodd*", a gw. nodiad do., td. 89. Ynglŷn â'r aberth hwn dywed Yule (c.w.r., ii, td. 135), "One might think Odoric had got to *Juggernath*. But this practice was not peculiar to Orissa . . . A gross instance . . . has recently [sef yn 1864] been reported within a few miles of Calcutta".

31 *sant* . . . *vot*: Swnia'r gystrawen hon hytrach yn ddiethr; cf. td. 43.24-25. Ffurf dro ydyw ar *Credant hwy vot hwnnw yn sant*. I bwysleisio'r gair *sant*, dywedem heddiw (a) *Credant taw (mai) sant yw hwnnw*"; neu (b) "*Sant, fel y credant hwy, yw hwnnw*".

41 2 *margaritis*: H., "margaritae". Ni wyddai'r cyfieithydd mo'r ffurf *mererid*. Y mae ganddo chwech enghraifft o *margarit* (gw. yr cirfa), fel ffurf unigol y mae'n debyg, er mai'r lluosog sydd bob tro yn y Lladin. Fe ellid cael *-is* yn Gymraeg oddiwrth yr olddod. Saes. *-es* (E.E.W., td. 101), ac ymddengys mai dylanwad hynny a welir ar y ffurf "margaritis".

4 *Mor y Gorllewin*: H., B.N., "Mare Oceanum", cf. td. 44.1 a 46.16, lle y ceir yr un cyfieithiad.

5 *Lamwri*: H., "Lammori". Rhan o ynys Sumatra nad oes olion ohoni yn awr.

6 *o gwbyl*: H., "nudi in toto corpore". Rhwir enghreifftiau o arfer yr ymadrodd felly yn y rhagymadrodd i'r D. FFEST., td. 16. c/

10 *gyffredin*: H., "communes". Ymdrinir â chwestiwn cyffredinedd gwragedd ym Mhrydain yn *Welsh People*, cap. II,

Nodiadau

Tud. Ll.

- ac yn *La Famille Celtique* d'Arbois de Jubainville (gw. td. 50 dan *comlebaid* "lit commun").
- 41 13 *ragor*: Gw. nodiad J.Ll.J. yn B.B.C.S. I, td. 2, "Achor, diachor, rhagor".
- 16 *anifeilyeid*: yr ans. "anifeilaidd".
- 17 *bydawl*: Ni rydd y Lladin ddim help i esbonio'r gair hwn. H., "terra optima est & abundat in omnibus bonis, carnibus, bladis, riso, auro argento & lignis Aloe, canfari & multis aliis". Bwnglerwyd wrth gopïo'r geiriau a gyfieithai "bladis, riso" (y'd a reis).
- 19 *Aloi*: Cf. "aloe", td. 52.20; ac "aloewydd" (S. "lign-aloes") NUM. xxiv, 6. Ni welais grybwyll "ffrwyth" y pren aloe mewn testun arall. Gw. ar *aloe* a *lign-aloes*, ENC. BR. I, tda. 719-720.
- ? *caraway*
19 *gariofwm*: H., "canfari"; B.N., "ganfara"; AR. "Ganfar". Yr oedd y gair mor ddeicithr i'r Eidalwr ag i'r Cymro; sef yn awr, y Saes. *camphor*; gw. N.E.D. d.g. [a.F., camfre, camphire = med. L . . . camphora, It. canfora. . . . The European forms are immediately from Arabic.] Nid yw disgrifiad Odrig yn gywir am drigolion Sumatra yn awr, ond y mae felly am drigolion ynysocdd Borneo, Pageh, ac eraill.
- 21 [y bobyl y wlat]: Wrth roi hyn i mewn, fe eglurir *ny* yn y frawddeg nesaf. H., "vendentem illos *genti illius regionis*, sicut nos vendimus porcos, *qui* statim occidunt eos & comedunt".
- 24 *Sumilta*: H., "Symolcra"; B.N., "Sumolchra"; AR. "Sumoltra sive Sumolara". Yn ddiâu, Sumatra a olygir, ac Odrig yw'r cyntaf o deithwyr Ewrop i sôn am yr ynys hon.
- 24 *nodant* . . . *deudeng mlwyd*: Methodd y cyfieithydd, neu rywun o'i flaen, yn ddrwg. H., "in 12 *partibus*"; B.N., ". . . in *duodecim locis*". Y mae rhoi nodau *tatû* ar y corff yn bur gyffredin yn rhai o'r ynysocdd cyfagos, megis Pageh.
- 26 *noeth*: Dyma gamgyfieithu eto; H. a B.N., "Et hii semper bellant *cum hominibus nudis* in alia regione".
- 28 *Java*: Ynys Java.
- 31 *eil ynys oreu*: H., "melior secunda". Cf. "eil wlat oreu", td. 54.6.
- 32 *garioph cubibe a chneu*: H., "garyophylli, cubibez, & nuces muscatae". Esbonnir *garyophyllon* yn "kind of Indian spice"; ac am *cubebs* dywed ENC. BR. (7, td. 606) "the fruit of several species of pepper".
- 33 *dieithyr gwin*: H., "praeterquam vini"; yn gystal â gwin.
- 42 4 *Camis de Cattay*: H., "Canis de Katay". Ceir "a Chamis de Cattai" isod, td. 44.19, ond *Kan* a ddiwydd bob tro arall.

Nodiadau

Tud. Ll.

- Y ffurf Saes. gyffredin yw *Khan* (weithiau *Cham*), < Arabeg *Khan*, 'brenin, ymherawdr'.
- 42 5 *beb dyg yaw ydaw dim* : Camddeallwyd y Lladin, gw. td. 107, Ffurf gysefin *tycyaw* (tycio) yw *tygyaw*; gw. w.G., td. 375. lle rhoir enghr. o *tygyaw* (w.M., 16) a *tygyei* (w.M., 14).
- 6 *Panton* : H., "Panten"; B.N., "Patem"; gelwir y lle hwn hefyd "Thalamin, Talamasim". Dyfynna Cordier (C.W.T., ii, td. 156) nodiad hir o eiddo G. E. Gerini, yn dangos mai *Singapore* a feddylir.
- 11 *yn docnus* : Dylai hyn ddilyn *a'e yuet*; H., "& in bona quantitate bibat".
- 15 *licor* : H. a B.N., "liquor". Rhoir *liker* (< S. *liquor*) yn E.E.W., td. 140. Y ffurfiau llafar a glywais i yw *licer* a *licar*, a hynny am ddiodydd meddwol yn unig. Efallai mai gweld y ffurf Ladin o'i flaen a barodd i D.F. ysgrifennu *licor* am *licer*.
- 15 *gwm* : H., "gummae". Dan "Gummi, . . . Gummi" dyry T.W. "Gwm a ddeigrinna allan o goed"; a cheir un enghr. o'r gair, fel benthyc o'r Saes., yn E.E.W., td. 158 [*Meddygon Myddfai* (Williams) td. 134].
- 17 *gadant* : = *gadawant*. Y mae'n debyg mai'r hyn a welodd Odrig oedd *sago*, er nad yw'n disgrifio'r proses yn gywir.
- 20 *safwreid* : H., "odorifera". Awgrymir yn E.E.W., td. 84, mai'r Saes. *savour* a roes *safr*, *sawr*, *safwyr*, a rhoir un enghr. o *sawwreid* (s.G. 129). Ymddengys bod yr Athro Parry-Williams yn iawn wrth gyplysu'r ffurfiau hyn, canys fe wyddys pa mor debyg y cynenid *v* ac *w* gynt, nes peri cyfnewid y naill am y llall yn aml. Nid oes raid tybio mai dau air gwahanol yw *sawr* a *safr*, fel y gwna'r Athro Morgan Watkin, yn TRANS. CYM., 1923-4, td. 119.
- 23 *mor marw* : Awgryma Yule, yn ei fap, mai rhan o'r culfor rhwng Java a Borneo yw hwn.
- 25 *kyrs* : H., "cannae longissimae". Dangosir yn w.G., td. 219, mai'r un gair yw *cors* 'marsh', llu. *corsydd*, â *corsen* 'reed', llu. *cyrs*.
- 26 *megys prennau mawr* : H., "—sunt magnae ut arbores"; disgwyliem 'yn fawr megys preneu'. Coed bambŵ a feddylir.
- 27 *cassan* : H., "Cassan" (Arab. *qassab*, 'corsen'). Fe ymleda math o gorsen a elwir *Ratan* ar hyd y llawr; ac y mae darnau o gorsen bambŵ mor galed â challestr (ENC. BR., 3,302).

Nodiadau

Tud. Ll.

- 42 29 *medna* : H., "non poterit incidi aliqua ferro". Rhaid mai gwall copïo am *men(n)a* sydd yma. Cynenir y ferf yn *menu* (ac nid *menuu*) bob amser yn y De. Gw. *Orgraff*, 97.
- 31 *A gwy'r y wlat honno* : Cymysgwyd dwy frawddeg yma, ac ni offennwyd y gyntaf ohonynt. H., "& ideo communiter homines illius contratae portant illos lapides super". Nid yw'r frawddeg Ladin hithau wedi ei gorffen.
- 32 *blor* : H., "per unum pulverem de quodam pisce". Fe rydd D. y ffurf *pluor* 'pulvis' a *pylor* fel amrywiad; hefyd fe rydd Lhuyd (td. 219) y ffurf *ploro*, 'llwch'. Llad. pulver— >*pulvor > *pylwor > pylor > plyor, pluor. (Loth, *Annales de Bretagnes*, VII, td. 385). Fel enghr. o *ve*— > *vo*-, o- cyfeiria Loth at *gasper* < *vesper*, a *gorau* < **guereu*; Gw. *fearr*. Plor < pylor, cf. clwm < *cylwm < cwlwm. Sylwer mai unigol yw *pyse* yma.
- 43 3 *sef a wna*, etc.: Y mae'r Lladin yn llawnach; gw. td. 108.
7 *beb penneu* : H., "sine ferro". Wrth golli *haearn* ar ôl *penneu*, collwyd pwynt y frawddeg yn y Gymraeg; oblegid swyn rhag *haearn* ac nid rhag *gwenwyn* na dim arall, oedd y meini yng nghnawd y rhyfelwyr.
- 8 [hwyleu] : H., "vela".
- 10 *Campa* : H., "Campa". Bu Champa yn enw ar ran o Cochinchina, gw. ENC. BR. 5, td. 84.
- 18 *y'r lann* : H., "super aridam se projiciunt quando prope ripam sunt, & permittunt homines per tres dies venire, & de illis sumere quantum placuerint, & tunc redeunt ad mare". Y mae'n bosibl bod rhyw eiriau megis "pan delont (*neu* vont) yn agos" wedi eu colli o flaen "y'r lann".
- 24 *a'r ateb hwnnw*, etc.: Ni welais y doniolwch hwn yn y Lladin.
- 27 *molwet* : H., "testitudines". *Molwed*, *molweten*, a glywir yn rhannau uchaf Cwm Tawe hyd heddiw. Cf. y glos Hen Gymraeg (M.C.) *mormeluet* ar y Llad. *testudinem*.
- 29 *llosgir y gw'r . . . a'e wreic* : Dyma'r ddefod adnabyddus a elwir "Suttec", gw. ENC. BR. 26, td. 171.
- 30 *y wlat o'r blaen* : "Polubum" oedd y 'wlad' honno, a rhaid bod sôn am yr arfer yn y dalennau a gollwyd uchod.
- 44 2 *banner dyd* : H., "versus meridiem". Dyma'r unig dro i'r cyfieithydd fethu gyda *meridies*. "Deheu" sy ganddo bob tro arall. Cyfeirir at wallau cyffelyb yn D.B., td. 118 (*ar ueridiem*).
- 3 *Macbimoran* : Y mae'r ffurfiau Lladin ar yr enw yn llygredig. Ynysodd Nicobar a feddylid, medd Yule.
- 4 *tec* : H., "in qua homines portant facies caninas & mulieres similiter". Ni welais ond "caninas" yn y Lladin; ond rhaid mai cyfieithu *candidas* a wnaeth D.F.

Nodiadau

Tud. Ll.

44

- 5 *talken* : Gw. nodiad I.W. yn B.B.C.s. IV, td. 58-60.
- 9 *feicko* : H. a B.N., "scutum . . . quod cooperit eos a capite usque ad pedes" ('tarian . . . a'u *cuddia* o'u pennau hyd at eu traed'). O ba air y daeth *feicko*? Methais egluro'r ffurf. Ni allaf ond awgrymu mai gwall yw am *facho*. Dyry D. dan *bachu* "Latere, latitare, in sinuosus latebras se conferre, incurvare se. Bachu'r wyd ym mhob buches. D.I.D.," Pe deallem mai cyfeirio at "y gwyr" y mae "y rei" yn hytrach nag at "taryaneu", yna golygai'r frawddeg "y mae'r gwŷr hyn yn bachu (wedi eu cuddio), o'u pennau hyd eu traed".
- 19 *o Tartari* : H., "Tartarorum".
- 19 *nyallant* : Disgwyliid "ny allei" (H., "nec . . . potuit"), gan mai'r un yw'r "amherawdyr" â'r "Camis".
- 21 *Silan* : Ceylon; gw. nod. yn D.B., td. 119 ar *Taphane*.
- 23 *seirff* : H., "ursarum"; gall mai gwall am *eirth* yw *seirff*.
- 26 *genawl* : *Cenol* yw ffurf gyffredin y De.
- 27 *nant redegawc* : H., "lacus". Rhod hyn yn lle *llynn* o dan ddyllanwad *reded* isod.
- 28 *ambeueis* . . . *reded* : H., "sed probavi hoc falsum esse, quia vidi aquam in lacu scaturire". Ymddengys na ddeallodd D.F. ergyd y frawddeg. Gwrthwynebiad Odrig i'r traddodiad oedd, bod tarddiant yn y llyn, ac na allai, felly, fod "o dagreu Adaf". Y mae *Adam's Peak* yn enw gan Saeson ar fynydd yn Ceylon. Sonnir am draddodiad cyffelyb yn *Biblical Legends of the Mussulmans* (Weil, td. 16):—"The tears flowed in such torrents from Adam's eyes that those of his right eye started the Euphrates, while those of his left eye set the Tigris in motion".
- 45 1 *elnot a gwennolot* : H., "*hirudinibus* & *sanguisugis*"; B.N., "*yrundinibus* et *sanguisugis*". Fe roes ryw gopiwr cynnar "*hirundinibus*" ('swallows') am "*hirudinibus*" ('leeches'), a chyfieithodd D.F. y ffurf wallus. Y mae'r ffurf lu. *gwennolod* yn gyffredin yn yr iaith lafar. Saif *gelnot* am *gelennot*, ffurf lu. ar *gelen*.
- 2 *vnweith [neu dny yn] y vlnyddyn* : H., "semel vel bis in anno".
- 8 *rubi adamantes* : H., "fodiuntur Rubiae, & adamantes".
- 10 *mnyaf . . . y allu* : H., "rex ille magis *abundat lapidibus pretiosis*, quam aliquis in mundo". Felly, *cyfoeth* (yn yr ystyr bresennol) yw *gallu* yma; gw. B.B.C.s. I, td. 29-30.
- 12 *neb o dieithyr* : H., "nullum forensem" [Gw. Du Cange; "forenses = extranei"]. Mae hwn yn ymadrodd gyffredin yn y De, sef *neb (rhywun) o ddiarth (ddiertb)*; "Does neb o ddiarth yma" (There is no stranger here.) Enw yw

Nodiadau

Tud. Ll.

- dieithyr yn y fan hon, a chyfetyb yr ymadrodd i rai fel merch o forwyn, crwt o Sais.*
- 45 14 *keilawc gwydeu*: Petrusodd y cyfieithydd, oherwydd bod dwy ffurf yn ymgynnig iddo; (a) *keil(v)agwydeu*, (b) *keilyogeu gwydeu*. Esbonnir mai aderyn a elwir *Calao*, a chanddo dyfiant rhyfedd ar ei big, oedd hwn; gw. ENC. BR., 13, td. 706.
- 17 *Bodin*: H., "Bodin", ond *Dodin*, *Dondin* fel rheol yn y llsgrau. Lladin. Ni esboniwyd pa le oedd hwn gan na Yule na Cordier; ond rhydd Yule enghreifftiau o arferion tebyg i'r hon a ddisgrifir yma, ymhlith llwythau Ynysoedd Môr y De, a De'r America (c.w.r., i, td. 100). Cf. hefyd D.B. td. 29:—"Ereill yssyd yno [yn yr India] a ladant eu rieni gwedy henhaont, a gwneuthur gwled oc eu kic; ac ennwir y barnant ar ny wnel uelly".
- 19 *of*: H., "crudas"; cf. H. Wyddeleg *om* 'raw'; a R.M. III, ll. 3, "na brwt nac of".
- 46 3 *gan ganwryaeth*: H., "cum canticis".
- 13 *dywedut vot*: Enghr. gynnar o anghofio swydd *bod* fel berfenw.
- 13 *kanmwyaf*: H., "major pars". Arferir yr ymadrodd hwn fel enw yma.
- 17 *Mansi*: Dyma esboniad Cordier:—"Northern China was designated *Kitai* . . . hence the name CATHAY; these northern men called the southern inhabitants of China Barbarians, *Man*, or Sons of Barbarians, *Man-tzu*, or *Man-tze*, hence MANGI and MANZI; it is true that the latter retaliated by calling their northern foe *Pe-tai*, 'Fools of the North' ". Dealler felly mai De China yw *Mansi*.
- 27 *Soncalon*: Y mae cryn amrywiaeth yn y ffurfiau Lladin ar yr enw; sef llygriadau o *Sin Kilan*, hen enw'r Mahometaniaid ar Ganton.
- 29 *adolant eu diuven*: H., "populus . . . idolatrat".
- 32 *deu lwdyn*: H., "& ita est de anatibus, & gallinis, quae magnae sunt valde in illa terra plusquam *duae de nostris*". Nid yr ystyr bresennol ('anifail ifanc'), sydd i *lwdyn* yma, ond cyfeiria at yr adar a enwyd uchod, ac nid cywion mohonynt chwaith. Ni sonnir am geiliogod yn y Lladin.
- 47 4 *Saitan*: B.N., "Zayton". Cyfeirid yn aml at y lle hwn hyd at ddiwedd y 14eg ganrif, o dan yr enwau *Zayton*, *Zaitun*, *Zeithum*, *Çayton*. Cred Cordier mai Ts'wan-chau oedd, porthladd pwysig tua'r Gorllewin o Formosa. Ni bu sôn am y ddinas wedi cwmp y Mongoliaid yn China.
- 7 *newidyeu*: gw. ar *newit*, 33.22.

Nodiadau

- Tud. Ll.*
- 47 9 *Cristoffyr* : Yn ôl y traddodiadau, yr oedd y sant hwn yn gawr (gw. ENC. BR. 6, td. 295).
- 15 *Fuco* : Fe ddywed Yule (C.W.T., ii, td. 185), "Undoubtedly *Fu-chau*, capital of Fu-kien province . . .".
- 23 *yn wahanredawl*, etc.: Ystyr *gwahanredawl* yma yw *rbyfedd*. H., "homines & mulieres *diversum modum vivendi habent*; ab alio autem latere . . . homines tot-aliter *diverse ab aliis vixerunt*". Ymddengys mai gwall yw "megys y rei ereill"; canys disgwyliem "amgen" yn lle "megys".
- 27 *Kanasia* : Heddiw, Hang-chau.
- 31 *de[i] ac vgein*, etc.: Fe ysgrifennwyd *ar* yn gyntaf o flaen *vgein*, a newidiwyd ef i *ac*. Y rhif yn y Lladin yw "10 vel 12". Tebyg mai hyn a ysgrifennodd D.F.:—"gweleis i dei a dec ar vgein neu deudec ar ugeint".
- 32 *solereu* : H., "Solaria", s.H., "stories". Dyry Du Cange dan *solarium* "*Solerium*, Domus contignatio, vel cubiculum majus ac superius, *soler*". Mewn Lladin clasurol golygai *solarium* ddeial haul (gw. LEWIS & SHORT, d.g.), a rhoes T.W. "Deial Haul, Goruchystafell" amdano. Yn y Saesneg cafwyd y ffurfiau hyn:—*solor*, *soler*, *solere*, *solar*, *solare*, *soller*, *saller* (N.E.D. dan *sollar* a *soler*); ac fe gymysgwyd y gair hwn a *soler* arall yn meddwl 'throne', [N.E.D.] Ymhlith ystyrion *sollar* ceir "An upper room or apartment in a house . . . originally open to the sun or receiving much sunlight . . . The confusion with *cellar* . . . is found occasionally in . . . texts down to the 16th cent. . . . A story of a house". Yn y COR. VOC. rhoir "soler = solarium vel solium, a ground room", a gwyddai Lhuyd (td. 151) am y ffurf Gernyweg hon. Gwelir bod y gair Saesneg *soler* (throne) < Llad. *solium*, wedi effeithio ar ystyr y gair Cernyweg, ond yn ein testun y mae *solereu* (< S.) yn amlwg yn golygu 'stories'.
- 33 *prinsipal* : Cf. G.T.A., td. 15, "*Prinsipal* ffydd, Ddafydd, oedd ef".
- 48 2 *dwyr sefydlawc* : H., "in aquis quae semper stant". Ym mhob man arall "dwfyr" a geir yn y testun, ac efallai fod y copiwr yn fwy cyfarwydd â'r ffurf hon mewn ysgrifen, ac iddo roi *twr* yma'n ddifeddwl (gw. W.G., td. 179).
- 17 *o'r lle dwyrein beul* : H., "unde ubi sol occidit", h.y. o'r gorllewin.
- 18 *y Gamalech* : Gw. ar *Kambelech*, td. 50.17.

??

Nodiadau

- Tud.* *Ll.*
- 48 25 *tule* : H., “*monticulus sicut unum campanile*”. Yn W.M. 203, ll. 14, y mae “y dyle” (*dais*) yn fenywaidd.
- 29 *maranones* : H., “maymones”, cf. “macones”, td. 34.16.
- 30 *mal amkan* : Gw. nodiad I.W. yn D.NAN., td. 156, ar *amcanwr*.
- 49 7 *a cbercint ac annwylyeit*, etc.: Camgyfieithu; H., “. . . quas nos hic pascimus *amore Dei*, qui regit orbem”.
- 16 *eu hangret y gallei* : h.y. “eu cred na allai”. H., “non enim poterat credere, quod aliqua anima posset sine corpore manere”.
- 18 *Chilempbo* : Cytuna daearyddwyr (C.W.T. ii, td. 205) mai Nan-King yw'r ddinas hon.
- 24 *Talai* : H., “flumen dictum Thalay”. Nail ai Ta-Kiang neu Yang-tsze Kiang yw *Talai*, medd Yule.
- 26 *y correit [neu] bigmei* : H., “Pygmæorum”. cf. LL.A., td. 165, “Correit Satiri. A gwraged o vn ryw genedyl ahonno. Pigmei”; a D.B., td. 29, “Pigencos” (Llad. “Pygmæos”); do., td. 87, “Pigmones”.
- 26 *Caban* : Llygrodd yr enw yn fawr yn y testunau. Tebyg mai ffurf fel *Catang* a ysgrifennodd Odrig. Awgryma Cordier taw Su-Sung, yn nhalaith Ngan-hwei, oedd y ddinas; gelwid hi gynt Kao-t'ang.
- 28 *sidan* : < H.S. *sīde* (E.E.W., td. 33).
- 31 *Janzu* : Yang-Chau-fu; dinas nid ymhell o afon Yang-tsze Kiang.
- 50 1 *auon Talai* : Camgopiwyd y frawddeg hon. Disgwyliem, “Dec milltir o'r dinas hwnnw, lle y mae boned yr auon Talai y mae dinas a elwir Montu”; gw. td. 116.
- 1 *Montu* : Ni welais esboniad ar yr enw, ond bernir mai dinas Sin-Kiang oedd ym meddwl Odrig.
- 6 *Letyn* : Lin-t'ing a olygir, ar y Gamlas Fawr, sef Yun-ho, ac nid yr afon Hwang-ho, fel y gellid tybied wrth “yr auon a elwir Caranoran”.
- 7 *Caran[oran]* : H., “Caramoran”. *Kara-murin* (Yr Afon Ddu) oedd enw'r Mongoliaid ar yr afon hon, a *Hwang-ho* (Yr Afon Felen) y galwodd y Chineaid hi. Gwyddys iddi wneuthur difrod mawr o dro i dro wrth lifo dros ei glannau.
- 12 *Sumacoc* : Yn ôl Cordier, “Ts'i-ning Chau” (sef Lin-t'ing-chau) yw hon.
- 14 *pwys deugeint punt* : H., “40 librae”. Ystyr *punt* yma, felly, yw ‘pound weight’. Am enghreifftiau eraill gw. E.E.W., td. 30.
- 14 *grot* : < S.C. *grotte*, *grott*. Tebyg mai'n fer y cynanai D.F. yr -o-, fel yn y De hyd heddiw (E.E.W., td. 182).
- 15 *maeleryaeth* : Awgrymir yn E.E.W., td. 109, *maeler* < S. *mailer*, a *mael* < S. *mail* (do. td. 194).

Nodiadau

Tud. Ll.

- 50 17 *Kambelech*: Y ffurf gysefin ar y gair oedd *Khân Bâliq* (Dinas y Cân), ac yn ddiweddarach Peking. Yn amser Odrig *Khân Bâliq* oedd yr enw Mongolaidd, a *Ta-Tu* (Y Brifddinas Fawr) oedd yr enw Chineaidd (c.w.r. ii, td. 216).
- 22 *prifflys a phalis*: H., "Sedem suam principalem, & suvm magnum palatium". Cyfeiria *palis*, yma ac isod ll. 25 at yr adeiladau yn eu crynswth.
- 23 *yr hwnn . . . y chaer*: Yr oedd y cyfieithydd, ond odid, yn meddwl am *palis* wrth ysgrifennu "hwnn", ac am *prifflys* neu *dinas* wrth ysgrifennu "y chaer".
- 24 *blasseod*: H., "palatia". Y mae'n bur amlwg mai'r ffurf hon oedd lluosog "palis" i fryd y cyfieithydd.
- 26 *o'r achaws*: H., "propter quod"; cf. *o'r bernydd*.
- 51 1 *yn y prif balis y brenbin*: h.y. ym mhrif blas y brenin.
- 2 *wedy y toi*: H., co-operti sunt". Cf. td. 52, ll. 21, lle y mae *toi* yn cyfieithu "ornata". Rhydd Lhuyd (td. 161) *toi* a *kbydhio* o dan *tego*.
- 5 *Merducas*: H., "una pigna . . . quae tota est de uno lapide pretioso nomine merdochas". Yn yr Eidaleg, darn mawr o garreg yw *pigna*. Gw. c.w.r., ii, td. 221 am esboniad Cordier ar "merdochas".
- 6 *yn llet*: Nid yw hyn yn cyfateb i'r Lladin. H., "est unus serpens de auro qui verberat os fortissime". Tybiaf mai "yn llet agoret" a ddylai fod yma; byddai'r neidr yn barod felly i ergydio ("verberare") neu frathu.
- 8 *y gymryt*: Gw. ar 32.22.
- 10 *baumot*: Nid ffurf ddiweddar ar *-eu-* yw *-au-* yma, eithr saif *paun* am *pa-un* < *pavōn- < Llad. pāvōn-. Gw. nodiad yn CH.O., td. 27-8. Yr oedd *paunot*, i ddechrau, yn deirsillafog.
- 13 *drychael a gorbopyan*: Collwyd yr enw a ddibynnai ar "drychael"; sef 'eu hesgyll' neu rywbeth tebyg. H., "emittunt alas suas . . . et videntur tripudiare". *Hopian* < H.S., *hopian*.
- 14 *nigromawns*: H., "Arte Magica". Gw. nodiad yn S.D.R., td. 97. *Nigromawns* < S.C. *nigromance*,—*aunce*.
